



---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2023 Rhif 798 (Cy. 127)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU**

**Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata)  
(Cymru) 2023**

*Gwnaed*

*12 Gorffennaf 2023*

*Yn dod i rym*

*17 Gorffennaf 2023*

---

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2023 No. 798 (W. 127)**

**ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES**

**The Packaging Waste (Data Collection and Reporting) (Wales)  
Regulations 2023**

*Made*

*12 July 2023*

*Coming into force*

*17 July 2023*

**£11.50**





OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

2023 Rhif 798 (Cy. 127)

2023 No. 798 (W. 127)

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith  
(Casglu ac Adrodd am Ddata)  
(Cymru) 2023

The Packaging Waste (Data  
Collection and Reporting) (Wales)  
Regulations 2023

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod gofynion ar gynhyrchwyr sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru i gasglu data am y pecynwaith y maent yn ei gyflenwi i eraill, ac, mewn rhai achosion, i adrodd am rywfaent o'r wybodaeth honno i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Rhan 1 yn cynnwys y darpariaethau dehongli a'r darpariaethau cyffredinol ar gyfer yr offeryn.

Mae Rhan 2 yn nodi'r rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr. Mae Atodlen 1 yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol i gynhyrchwyr ei chasglu ac adrodd amdani.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau cofrestredig ac yn esemptio cynhyrchwyr sy'n aelodau o gynllun cofrestredig rhag eu rhwymedigaethau o ran adrodd am ddata o dan y Rheoliadau hyn, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion yn rheoliad 19(2). Mae'n ofynnol i gynlluniau cofrestredig lunio adroddiadau ar ran pob un o'u haelodau sy'n bodloni'r gofynion hyn. Mae Rhan 3 hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â newidiadau i aelodaeth cynllun yng nghanol blwyddyn berthnasol.

Mae Rhan 4 yn nodi pwerau a dyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y Rheoliadau hyn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations impose requirements on producers who are established in Wales to collect data on the packaging they supply to others, and, in some cases, to report some of that information to Natural Resources Wales.

Part 1 contains the interpretation and general provisions for the instrument.

Part 2 sets out the obligations on producers. Schedule 1 identifies the information which producers are required to collect and report on.

Part 3 makes provision for registered schemes and exempts producers who are members of a registered scheme from their data reporting obligations under these Regulations, provided that they satisfy the requirements in regulation 19(2). Registered schemes are required to make reports on behalf of each of their members who satisfy these requirements. Part 3 also makes provision in relation to changes to the membership of a scheme in the middle of a relevant year.

Part 4 sets out the powers and duties of Natural Resources Wales under these Regulations.

Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer nifer o droseddau a chosbau am dorri'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn. Gorfodir y Rheoliadau hyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Part 5 provides for a number of offences and penalties for breach of the requirements imposed by these Regulations. These Regulations are enforced by Natural Resources Wales.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2023 Rhif 798 (Cy. 127)**

**2023 No. 798 (W. 127)**

**DIOGELU'R AMGYLCHEDD,  
CYMRU**

**ENVIRONMENTAL  
PROTECTION, WALES**

Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith  
(Casglu ac Adrodd am Ddata)  
(Cymru) 2023

The Packaging Waste (Data  
Collection and Reporting) (Wales)  
Regulations 2023

*Gwnaed* 12 Gorffennaf 2023  
*Yn dod i rym* 17 Gorffennaf 2023

*Made* 12 July 2023  
*Coming into force* 17 July 2023

**CYNNWYS**  
**RHAN 1**  
**CYFFREDINOL**

**CONTENTS**  
**PART 1**  
**GENERAL**

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli
3. Ymsefydlu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig
4. Addasiadau i'r Gyfarwyddeb Wastraff
5. Diod
6. Pecynwaith a chategorïau o becynwaith
7. Pecynwaith cartref
8. Cynhyrchwyr
9. Ystyr ymadroddion sy'n ymwneud â thrwyddedwyr a busnesau gweithredu tafarn
10. Cyflenwi
11. Y meini prawf trothwy ar gyfer cynhyrchwyr mawr a bach
12. Pecynwaith esempt
13. Eithrio elusennau rhag rhwymedigaethau casglu ac adrodd am ddata
14. Analluedd etc.

1. Title and commencement
2. Interpretation
3. Establishment in Wales and the United Kingdom
4. Modifications to the Waste Directive
5. Drink
6. Packaging and packaging categories
7. Household packaging
8. Producers
9. Meaning of expressions relating to licensors and pub operating businesses
10. Supply
11. Threshold criteria for large and small producers
12. Exempt packaging
13. Exclusion of charities from data collection and data reporting obligations
14. Incapacity etc

## RHAN 2

### Cynhyrchwyr a rhwymedigaethau

15. Rhwymedigaethau cynhyrchwyr
16. Rhwymedigaethau casglu data
17. Rhwymedigaethau adrodd am ddata
18. Hysbysu am ddirwyn i ben, derbynyddiad, mynd i ddwylo'r gweinyddwyr, etc.

## RHAN 3

### Cynhyrchwyr a chynlluniau

19. Cynhyrchwyr ac aelodaeth o gynllun
20. Cynlluniau: darpariaethau cyffredinol
21. Newidiadau yng nghanol blwyddyn

## RHAN 4

### Pwerau a dyletswyddau CNC

22. Cyhoeddi eitemau a ailgylchir gan awdurdodau perthnasol
23. Monitro
24. Personau a gymeradwywyd
25. Dirprwyo swyddogaethau personau a gymeradwywyd: y weithdrefn
26. Mynediad ac arolygu
27. Rhannu gwybodaeth

## RHAN 5

### Gorfodi

28. Troseddau a chosbau
29. Gorfodi

## PART 2

### Producers and obligations

15. Producer obligations
16. Data collection obligations
17. Data reporting obligations
18. Notification of winding-up, receivership, administration, etc

## PART 3

### Producers and schemes

19. Producers and scheme membership
20. Schemes: general provisions
21. Mid-year changes

## PART 4

### NRW powers and duties

22. Publication of items recycled by relevant authorities
23. Monitoring
24. Approved persons
25. Delegation of approved persons' functions: procedure
26. Entry and inspection
27. Information sharing

## PART 5

### Enforcement

28. Offences and penalties
29. Enforcement

---

ATODLEN 1 — Casglu ac adrodd am wybodaeth

ATODLEN 2 — Trwyddedwyr a Busnesau Gweithredu Tafarn

---

SCHEDULE 1 — Collection and reporting of information

SCHEDULE 2 — Licensors and Pub Operating Businesses

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(1) i (3) o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 (“Deddf 1999”)(1) a pharagraffau 2, 11, 17 ac 20(1)(b) o Atodlen 1 iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 2(4) o Ddeddf 1999, wedi ymgynghori ag—

- (a) Cyfoeth Naturiol Cymru,
- (b) y cyrff neu'r personau hynny yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol, diwydiant, amaethyddiaeth a busnesau bach, yn eu trefn, y maent yn ystyried eu bod yn briodol, ac
- (c) y cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adran 2(8) o Ddeddf 1999, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

## RHAN 1

### Cyffredinol

#### Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Gorffennaf 2023.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 2(1) to (3) of, and paragraphs 2, 11, 17 and 20(1)(b) of Schedule 1 to, the Pollution Prevention and Control Act 1999 (“the 1999 Act”)(1).

The Welsh Ministers have, in accordance with section 2(4) of the 1999 Act consulted—

- (a) Natural Resources Wales,
- (b) such bodies or persons appearing to them to be representative of the interests of local government, industry, agriculture and small businesses respectively as they consider appropriate, and
- (c) such other bodies or persons as the Welsh Ministers consider appropriate.

In accordance with section 2(8) of the 1999 Act, a draft of these Regulations has been laid before, and approved by resolution of Senedd Cymru(2).

## PART 1

### General

#### Title and commencement

1.—(1) The title of these Regulations is the Packaging Waste (Data Collection and Reporting) (Wales) Regulations 2023.

(2) These Regulations come into force on 17 July 2023.

---

(1) 1999 p. 24. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac eithrio mewn perthynas â chwilio am olew a nwy alltraeth ac elwa arnynt, gan erthygl 3(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2005 (O.S. 2005/1958). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Diwygiwyd adran 2 gan O.S. 2013/755 (Cy. 90). Diwygiwyd Atodlen 1 gan adran 70 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 (p. 30) ac O.S. 2005/925, 2012/2788, 2018/942 a 2019/458, mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(2) Mae'r cyfeiriad yn adran 2(8) at gymeradwyaeth gan ddau Dŷ Senedd y DU yn cael effaith mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gan Weinidogion Cymru fel pe bai'n gyfeiriad at gymeradwyaeth gan Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 33 o Atodlen 11 iddi.

---

(1) 1999 c. 24. Functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales, except in relation to offshore oil and gas exploration and exploitation, by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2005 (S.I. 2005/1958), article 3(1). Functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). Section 2 was amended by S.I. 2013/755 (W. 90). Schedule 1 was amended by section 70 of the Environment Act 2021 (c. 30) and S.I. 2005/925, 2012/2788, 2018/942 and 2019/458, there are other amending instruments but none is relevant.

(2) The reference in section 2(8) to approval by each House of Parliament has effect in relation to exercise of functions by the Welsh Ministers as if it were a reference to approval by Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of, and paragraph 33 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006.

## Dehongli

### 2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “ailddefnyddio” yr ystyr a roddir i “re-use” yn Erthygl 3(13) o’r Gyfarwyddeb Wastraff;

mae i “ailgylchu” yr ystyr a roddir i “recycling” yn Erthygl 3(17) o’r Gyfarwyddeb Wastraff;

mae i “alcohol” yr un ystyr ag sydd i “alcohol” yn adran 191 o Ddeddf 2003 ac mae “alcoholig” i’w ddehongli yn unol â hynny;

mae i “awdurdod casglu gwastraff” yr ystyr a roddir i “waste collection authority” yn adran 30(3) o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990(1);

mae i “awdurdod gwaredu gwastraff” yr ystyr a roddir i “waste disposal authority” yn adran 30(2) o Ddeddf Diogelu’r Amgylchedd 1990;

ystyr “awdurdod perthnasol” (“*relevant authority*”) yw—

(a) awdurdod casglu gwastraff;

(b) awdurdod gwaredu gwastraff;

ystyr “blwyddyn berthnasol” (“*relevant year*”) yw blwyddyn galendr y mae person yn gynhyrchydd mewn cysylltiad â hi;

mae i “busnes gweithredu tafarn” (“*pub operating business*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(2);

ystyr “categori o becynwaith” (“*packaging category*”) yw un o’r categorïau y cyfeirir atynt yn rheoliad 6(4);

ystyr “CNC” (“*NRW*”) yw Cyfoeth Naturiol Cymru;

mae i “cyflenwi” (“*supplies*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 10(1);

ystyr “cyfnod casglu data” (“*data collection period*”) yw—

(a) y cyfnod o’r dyddiad y mae’r Rheoliadau hyn yn dod i rym tan 31 Rhagfyr 2023, a

(b) mewn blynyddoedd dilynol, y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau ar 1 Ionawr;

mae i “cynhyrchydd” (“*producer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8;

mae i “cynhyrchydd bach” (“*small producer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 11(2);

mae i “cynhyrchydd mawr” (“*large producer*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 11(1);

ystyr “cynllun cofrestredig” (“*registered scheme*”) yw cynllun sydd wedi ei gofrestru yn unol â

## Interpretation

### 2.—(1) In these Regulations—

“the 2003 Act” (“*Deddf 2003*”) means the Licensing Act 2003(1);

“alcohol” (“*alcohol*”) has the same meaning as in section 191 of the 2003 Act and “alcoholic” is to be construed accordingly;

“approved person” (“*person a gymeradwywyd*”) means the person for the time being approved under regulation 24 for the purpose of verifying information provided by a producer—

(a) to NRW under regulation 17(4)(b);

(b) to the operator of a scheme under regulation 19(2)(b)(ii);

“brand owner” (“*perchennog brand*”) has the meaning given in regulation 8(2) read with regulation 8(3);

“branded packaging” (“*pecynwaith wedi ei frandio*”) has the meaning given in regulation 8(13);

“consumer” (“*treuliwr*”) means an individual acting for purposes which are outside that individual’s trade, business, craft or profession;

“data collection obligations” (“*rhwymedigaethau casglu data*”) means the obligations in regulation 16;

“data collection period” (“*cyfnod casglu data*”) means—

(a) the period from the date on which these Regulations come into force until 31 December 2023, and

(b) in subsequent years, the period of 12 months starting on 1 January;

“data reporting obligations” (“*rhwymedigaethau adrodd am ddata*”) means the obligations in regulation 17;

“disposal” (“*gwaredu*”) has the meaning given in Article 3(19) of the Waste Directive;

“distributor” (“*dosbarthwr*”) means a person who manufactures or imports unfilled packaging and supplies that packaging to another person;

“drink” (“*diod*”) has the meaning given in regulation 5;

“exempt packaging” (“*pecynwaith esempt*”) means packaging which is exempt in relation to a producer in accordance with regulation 12(2);

(1) 1990 p. 43. Mae diwygiadau i adran 30 nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) 2003 c. 17. Section 191 was amended by section 135 of the Policing and Crime Act 2017 (c. 3) and S.I. 2006/2407.



Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Pecynwaith) 2007(1);

ystyr “cytundeb gweithredu tafarn” (“*pub operating agreement*”) yw cytundeb neu nifer o gytundebau cysylltiedig y mae un person (y busnes gweithredu tafarn) yn rhoi ynddo neu odano, neu ynddynt neu odanynt, denantiaeth neu les mangre i berson arall (y tenant) sy’n cynnwys rhwymedigaeth (pa un a’i mynegir fel rhwymedigaeth gadarnhaol neu fel rhwymedigaeth negyddol) ar y tenant i brynu rhywfaint neu’r cyfan o’r alcohol neu’r ddiodyd alcoholig (yn ôl y digwydd), i’w werthu neu i’w gyflenwi fel arall, neu i’w gwerthu neu i’w chyflenwi fel arall, yn y fangre neu o’r fangre, oddi wrth y busnes gweithredu tafarn neu oddi wrth berson neu bersonau a enwebwyd neu a awdurdodwyd gan neu ar ran y busnes hwnnw;

ystyr “cytundeb trwyddedu” (“*licence agreement*”) yw cytundeb neu nifer o gytundebau cysylltiedig y mae’r trwyddedwr yn rhoi ynddo neu odano, neu ynddynt neu odanynt, drwydded i’r trwyddedai sy’n caniatáu i’r trwyddedai ddefnyddio nod masnach fel enw y mae’r trwyddedai yn gwerthu odano o’r fangre nwyddau sy’n gysylltiedig â’r nod masnach hwnnw, ac mae’n cynnwys rhwymedigaeth (pa un a’i mynegir fel rhwymedigaeth gadarnhaol neu fel rhwymedigaeth negyddol) ar y trwyddedai sy’n ymwneud â diwyg y fangre honno;

ystyr “darparwr gwasanaeth” (“*service provider*”) yw person sy’n cyflenwi pecynwaith y gellir ei aildefnyddio i ddefnyddiwr y pecynwaith hwnnw pan fo’r cyflenwi’n digwydd drwy roi’r pecynwaith ar log neu ar fenthyg;

ystyr “Deddf 2003” (“*the 2003 Act*”) yw Deddf Trwyddedu 2003(2);

ystyr “deunydd cyfansawdd sy’n seiliedig ar ffibr” (“*fibre-based composite material*”) yw deunydd pecynwaith sydd wedi ei wneud o bapur-fwrdd neu ffibrau papur, wedi ei lamineiddio â phlastig, ac y gall fod iddo haenau o ddeunyddiau eraill, i ffurfio un uned na ellir ei gwahanu â llaw;

ystyr “deunyddiau pecynwaith” (“*packaging materials*”) yw deunyddiau a ddefnyddir i weithgynhyrchu pecynwaith ac mae’n cynnwys deunyddiau crai a deunyddiau wedi eu prosesu cyn eu troi’n becynwaith;

“fibre-based composite material” (“*deunydd cyfansawdd sy’n seiliedig ar ffibr*”) means packaging material which is made of paperboard or paper fibres, laminated with plastic, and which may also have layers of other materials, to form a single unit that cannot be separated by hand;

“household packaging” (“*pecynwaith cartref*”) has the meaning given in regulation 7;

“importer” (“*mewnforiwr*”) means—

- (a) the person responsible for importing filled packaging into the United Kingdom, whether or not that packaging ends up being supplied, or
- (b) where the person referred to in paragraph (a) of this definition is not present in the United Kingdom, the first person in the United Kingdom who takes ownership of the packaging;

“large producer” (“*cynhyrchydd mawr*”) has the meaning given in regulation 11(1);

“licence agreement” (“*cytundeb trwyddedu*”) means an agreement or number of related agreements in or under which the licensor grants the licensee a licence that allows the licensee to use a trade mark as the name under which the licensee sells from premises goods that are associated with that trade mark, and includes an obligation (whether expressed as a positive or as a negative obligation) on the licensee that relates to the presentation of those premises;

“licensee” (“*trwyddedai*”) means the party to a licence agreement to whom a licence to use a trade mark is granted;

“licensor” (“*trwyddedwr*”) has the meaning given in regulation 9(1);

“NRW” (“*CNC*”) means Natural Resources Wales;

“online marketplace operator” (“*gweithredwr marchnadle ar-lein*”) means the operator of a website, or any other means by which information is made available over the internet, which facilitates the sale of goods through the website or other means by persons other than the operator, whether or not the operator also sells goods through the online marketplace;

“operator” (“*gweithredwr*”) in relation to an online marketplace, means the person who controls access to, and the contents of, the online marketplace provided that the person is involved in—

- (a) determining any terms and conditions applicable to the sale of goods,
- (b) processing, or facilitating the processing, of payment for the goods, and

(1) O.S. 2007/871 a ddiwygiwyd gan O.S. 2007/3538; 2010/675, 2849; 2012/360; 2013/1821, 755; 2016/241, 696, 738; 2018/721; 2019/188; 2020/387, 904, 1390.

(2) 2003 p. 17. Diwygiwyd adran 191 gan adran 135 o Ddeddf Plismona a Throseddau 2017 (p. 3) ac O.S. 2006/2407.

mae i “diod” (“*drink*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 5;

ystyr “dosbarthwr” (“*distributor*”) yw person sy’n gweithgynhyrchu neu’n mewnforio pecynwaith nas llanwyd ac yn cyflenwi’r pecynwaith hwnnw i berson arall;

mae i “gwaredu” yr ystyr a roddir i “disposal” yn Erthygl 3(19) o’r Gyfarwyddeb Wastraff;

mae i “gwastraff” yr ystyr a roddir i “waste” yn Erthygl 3(1) o’r Gyfarwyddeb Wastraff, o’i darllen gydag Erthyglau 5 a 6 o’r Gyfarwyddeb honno;

ystyr “gwastraff pecynwaith” (“*packaging waste*”) yw pecynwaith neu ddeunydd pecynwaith sy’n wastraff ond nid yw’n cynnwys pecynwaith sy’n cael ei daflu ac yn dod yn wastraff y tu allan i’r Deyrnas Unedig;

mae i “gwastraff pecynwaith perthnasol” (“*relevant packaging waste*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 16(7);

ystyr “gweithredwr” (“*operator*”) mewn perthynas â marchnadle ar-lein yw’r person sy’n rheoli mynediad at y marchnadle ar-lein, a chynnwys y marchnadle hwnnw, ar yr amod bod y person yn ymwneud ag—

- (a) pennu unrhyw delerau ac amodau sy’n gymwys i werthu nwyddau,
- (b) prosesu, neu hwyluso’r gwaith o brosesu, taliadau am y nwyddau, ac
- (c) archebu neu ddanfôn, neu hwyluso’r gwaith o archebu neu ddanfôn, y nwyddau;

ystyr “gweithredwr marchnadle ar-lein” (“*online marketplace operator*”) yw gweithredwr gwefan, neu unrhyw gyfrwng arall y perir bod gwybodaeth ar gael dros y rhyngwyd drwyddo, sy’n hwyluso gwerthu nwyddau drwy’r wefan neu’r cyfrwng arall gan bersonau heblaw’r gweithredwr, pa un a yw’r gweithredwr hefyd yn gwerthu nwyddau drwy’r marchnadle ar-lein ai peidio;

ystyr “gwerthwr” (“*seller*”) yw person sy’n cyflenwi pecynwaith i ddefnyddiwr neu dreuliwr y pecynwaith hwnnw, pa un a yw’r pecynwaith wedi ei lenwi pan gaiff ei gyflenwi ai peidio;

ystyr “y Gyfarwyddeb Wastraff” (“*the Waste Directive*”) yw Cyfarwyddeb 2008/98/EC Senedd Ewrop a’r Cyngor ar wastraff<sup>(1)</sup>, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb (EU) 2018/851<sup>(2)</sup>, ac fel y’i darllenir yn unol â rheoliad 4;

(c) the ordering or delivery, or facilitating the ordering or delivery, of the goods;

“packaging” (“*pecynwaith*”) has the meaning given in regulation 6;

“packaging category” (“*categori o becynwaith*”) means one of the categories referred to in regulation 6(4);

“packaging materials” (“*deunyddiau pecynwaith*”) means materials used in the manufacture of packaging and includes raw materials and processed materials prior to their conversion into packaging;

“packaging waste” (“*gwastraff pecynwaith*”) means any packaging or packaging material which is waste but does not include packaging which is discarded and becomes waste outside the United Kingdom;

“packer/filler” (“*paciwr/llanwr*”) means a person who puts goods into packaging;

“premises” (“*mangre*”) means any sales outlet on which packaging is handled and includes any land, vehicle, vessel, mobile plant and stall;

“primary packaging” (“*pecynwaith cynradd*”) has the meaning given in regulation 6(1)(a);

“producer” (“*cynhyrhydd*”) has the meaning given in regulation 8;

“pub operating agreement” (“*cytundeb gweithredu tafarn*”) means an agreement or number of related agreements in or under which one person (the pub operating business) grants a tenancy or lease of premises to another person (the tenant) that includes an obligation (whether expressed as a positive or as a negative obligation) on the tenant to purchase some or all of the alcohol or alcoholic liquor (as the case may be), to be sold or otherwise supplied on or from the premises, from the pub operating business or from a person or persons nominated or authorised by or on behalf of that business;

“pub operating business” (“*busnes gweithredu tafarn*”) has the meaning given in regulation 9(2);

“recycling” (“*ailgylchu*”) has the meaning given in Article 3(17) of the Waste Directive;

“registered scheme” (“*cynllun cofrestredig*”) means a scheme which is registered in accordance with the Producer Responsibility Obligations (Packaging Waste) Regulations 2007<sup>(1)</sup>;

(1) OJ L312, 22.11.2008, t. 3.  
(2) OJ L150, 14.6.2018, t. 109.

(1) S.I. 2007/871 amended by S.I. 2007/3538; 2010/675, 2849; 2012/360; 2013/1821, 755; 2016/241, 696, 738; 2018/721; 2019/188; 2020/387, 904, 1390.

ystyr “mangre” (“*premises*”) yw unrhyw safle gwerthu y trinnir pecynwaith arno ac mae’n cynnwys unrhyw dir, cerbyd, llestr, offer symudol a stondin;

ystyr “mewnforiwr” (“*importer*”) yw—

- (a) y person sy’n gyfrifol am fewnforio pecynwaith wedi ei lenwi i’r Deyrnas Unedig, pa un a gyflenwir y pecynwaith hwnnw yn y pen draw ai peidio, neu
- (b) pan nad yw’r person y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o’r diffiniad hwn yn bresennol yn y Deyrnas Unedig, y person cyntaf yn y Deyrnas Unedig sy’n cymryd perchnogaeth o’r pecynwaith;

mae i “nod masnach” yr un ystyr ag a roddir i “trade mark” yn adran 1 o Ddeddf Nodau Masnach 1994(1);

ystyr “paciwr/llanwr” (“*packer/filler*”) yw person sy’n rhoi nwyddau mewn pecynwaith;

mae i “pecynwaith” (“*packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6;

mae i “pecynwaith cartref” (“*household packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 7;

mae i “pecynwaith cludo” (“*shipment packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(1)(d);

mae i “pecynwaith cynradd” (“*primary packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(1)(a);

mae i “pecynwaith eilaidd” (“*secondary packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(1)(b);

ystyr “pecynwaith esempt” (“*exempt packaging*”) yw pecynwaith sy’n esempt mewn perthynas â chynhyrhydd yn unol â rheoliad 12(2);

mae i “pecynwaith trydyddol” (“*tertiary packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 6(1)(c);

mae i “pecynwaith wedi ei frandio” (“*branded packaging*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(13);

ystyr “pecynwaith y gellir ei aildefnyddio” (“*reusable packaging*”) yw pecynwaith sydd wedi ei gynllunio i gael ei ddefnyddio sawl gwaith drwy ei ail-lenwi neu ei aildefnyddio at yr un diben y’i crëwyd ato;

mae i “perchennog brand” (“*brand owner*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(13) o’i ddarllen gyda rheoliad 8(3);

ystyr “person a gymeradwywyd” (“*approved person*”) yw person sydd wedi ei gymeradwyo am y tro o dan reoliad 24 at ddiben dilysu gwybodaeth a ddarperir gan gynhyrhydd—

- (a) i CNC o dan reoliad 17(4)(b);

“relevant authority” (“*awdurdod perthnasol*”) means—

- (a) a waste collection authority;
- (b) a waste disposal authority;

“relevant packaging waste” (“*gwastraff pecynwaith perthnasol*”) has the meaning given in regulation 16(7);

“relevant year” (“*blwyddyn berthnasol*”) means a calendar year in respect of which a person is a producer;

“re-use” (“*aildefnyddio*”) has the meaning given to it in Article 3(13) of the Waste Directive;

“reusable packaging” (“*pecynwaith y gellir ei aildefnyddio*”) means packaging which has been designed to be used multiple times by being refilled or re-used for the same purpose for which it was conceived;

“secondary packaging” (“*pecynwaith eilaidd*”) has the meaning given in regulation 6(1)(b);

“seller” (“*gwerthwr*”) means a person who supplies packaging to a user or a consumer of that packaging, whether or not the packaging has been filled at the time of the supply;

“service provider” (“*darparwr gwasanaeth*”) means a person who supplies reusable packaging to a user of that packaging where the supply is made by hiring out or lending the packaging;

“shipment packaging” (“*pecynwaith cludo*”) has the meaning given in regulation 6(1)(d);

“small producer” (“*cynhyrhydd bach*”) has the meaning given in regulation 11(2);

“supplies” (“*cyflenwi*”) has the meaning given in regulation 10(1);

“tenant” (“*tenant*”) means the party to a pub operating agreement to whom the lease or tenancy of premises is granted;

“tertiary packaging” (“*pecynwaith trydyddol*”) has the meaning given in regulation 6(1)(c);

“trade mark” (“*nod masnach*”) has the same meaning as in section 1 of the Trade Marks Act 1994(1);

“turnover” (“*trosiant*”) means, in relation to a person, their turnover as defined in section 539 of the Companies Act 2006(2) but as if the references to a company were references to that person;

(1) 1994 p. 26. Diwygiwyd adran 1 gan O.S. 2018/825.

(1) 1994 c. 26. Section 1 was amended by S.I. 2018/825.  
(2) 2006 c. 46. There are amendments to section 539 which are not relevant to these Regulations.

(b) i weithredwr cynllun o dan reoliad 19(2)(b)(ii);

ystyr “rheoleiddiwr y DU” (“*UK regulator*”) yw—

- (a) o ran Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd,
- (b) o ran Cymru, CNC,
- (c) o ran yr Alban, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, neu
- (d) o ran Gogledd Iwerddon, Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon;

ystyr “rhwymedigaethau adrodd am ddata” (“*data reporting obligations*”) yw’r rhwymedigaethau yn rheoliad 17;

ystyr “rhwymedigaethau casglu data” (“*data collection obligations*”) yw’r rhwymedigaethau yn rheoliad 16;

ystyr “tenant” (“*tenant*”) yw’r parti mewn cytundeb gweithredu tafarn y rhoddir y les neu’r denantiaeth mangre iddo;

ystyr “treuliwr” (“*consumer*”) yw unigolyn sy’n gweithredu at ddibenion sydd y tu allan i fasnach, busnes, crefft neu broffesiwn yr unigolyn hwnnw;

ystyr “trosiant”, mewn perthynas â pherson, yw ei drosiant fel y diffinnir “turnover” yn adran 539 o Ddeddf Cwmnïau 2006(1) ond fel pe bai’r cyfeiriadau at gwmni yn gyfeiriadau at y person hwnnw;

ystyr “trwyddedai” (“*licensee*”) yw’r parti mewn cytundeb trwyddedu y rhoddir trwydded i ddefnyddio nod masnach iddo;

mae i “trwyddedwr” (“*licensor*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 9(1).

(2) At ddibenion y diffiniad o “gweithredwr marchnadle ar-lein”, mae marchnadle ar-lein yn hwyluso gwerthu nwyddau os yw’n caniatáu i berson—

- (a) cynnig nwyddau ar werth, a
- (b) ymrwymo i gontract ar gyfer gwerthu’r nwyddau hynny.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

- (a) caniateir i unrhyw ddogfen sydd i’w darparu neu ei rhoi i unrhyw berson gael ei darparu neu ei rhoi i’r person hwnnw drwy ddulliau electronig os oes modd i’r person hwnnw atgynhyrchu’r ddogfen honno ar ffurf ddarllenadwy;

“UK regulator” (“*rheoleiddiwr y DU*”) means—

- (a) in relation to England, the Environment Agency,
- (b) in relation to Wales, NRW,
- (c) in relation to Scotland, the Scottish Environment Protection Agency, or
- (d) in relation to Northern Ireland, the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs for Northern Ireland;

“waste” (“*gwastraff*”) has the meaning given in Article 3(1) of the Waste Directive, read with Articles 5 and 6 of that Directive;

“waste collection authority” (“*awdurdod casglu gwastraff*”) has the meaning given in section 30(3) of the Environmental Protection Act 1990(1);

“the Waste Directive” (“*y Gyfarwyddeb Wastraff*”) means Directive 2008/98/EC of the European Parliament and of the Council on waste(2), as last amended by Directive (EU) 2018/851(3), and as read in accordance with regulation 4;

“waste disposal authority” (“*awdurdod gwaredu gwastraff*”) has the meaning given in section 30(2) of the Environmental Protection Act 1990.

(2) For the purposes of the definition of “online marketplace operator”, an online marketplace facilitates the sale of goods if it allows a person to—

- (a) offer goods for sale, and
- (b) enter into a contract for the sale of those goods.

(3) In these Regulations—

- (a) any document which is to be provided or given to any person may be provided or given to that person by electronic means if the document is capable of being reproduced by that person in legible form;

(1) 2006 p. 46. Mae diwygiadau i adran 539 nad ydynt yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(1) 1990 c. 43. There are amendments to section 30 which are not relevant to these Regulations.

(2) OJ L312, 22.11.2008, p. 3.

(3) OJ L150, 14.6.2018, p. 109.

- (b) caniateir bodloni ar ffurf electronig unrhyw ofyniad i wneud, cadw neu ddal gafael ar gofnod neu i gadw cofrestr os oes modd i'r testun gael ei gynhyrchu gan y person sy'n ddarostyngedig i'r gofyniad ar ffurf ddogfennol ddarllenadwy;
- (c) caniateir bodloni unrhyw ofyniad am lofnod drwy lofnod electronig wedi ei ymgorffori yn y ddogfen, ac at y dibenion hyn, ystyr "lofnod electronig" yw data ar ffurf electronig sydd wedi ei atodi i ddata arall ar ffurf electronig, neu sy'n rhesymegol gysylltiedig â data arall ar ffurf electronig, ac a ddefnyddir gan y lofnodwr i lofnodi.

- (b) any requirement to make, keep or retain a record or to maintain a register may be satisfied in electronic form if the text is capable of being produced by the person subject to the requirement in a legible documentary form;
- (c) any requirement for a signature may be satisfied by an electronic signature incorporated into the document, and for these purposes, "electronic signature" means data in electronic form which is attached to or logically associated with other data in electronic form and which is used by the signatory to sign.

### Ymsefydlu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

3.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, mae person wedi ymsefydlu—

- (a) yng Nghymru—
  - (i) os yw'r person hwnnw'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, neu
  - (ii) os yw swyddfa gofrestredig y person hwnnw, neu os nad oes ganddo swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa, neu ei brif fan busnes, yng Nghymru, neu
  - (iii) os yw paragraff (2) yn gymwys;
- (b) yn y Deyrnas Unedig—
  - (i) os yw'r person hwnnw'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig, neu
  - (ii) os yw swyddfa gofrestredig y person hwnnw, neu os nad oes ganddo swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa, neu ei brif fan busnes, yn y Deyrnas Unedig.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys—

- (a) os yw swyddfa gofrestredig y person hwnnw, neu os nad oes ganddo swyddfa gofrestredig, ei brif swyddfa, neu ei brif fan busnes, y tu allan i'r Deyrnas Unedig,
- (b) os oes gan y person hwnnw gangen neu gyfeiriad post yng Nghymru, ac
- (c) os nad yw'r person hwnnw wedi rhoi hysbysiad i CNC o dan baragraff (3).

(3) Pan fo gan berson y mae paragraff (2)(a) yn gymwys iddo gangen neu gyfeiriad post yng Nghymru ac mewn un wlad arall neu ragor yn y Deyrnas Unedig, caiff y person hwnnw ddewis cael ei drin fel pe bai wedi ymsefydlu yn un o'r gwledydd eraill hynny yn hytrach nag yng Nghymru drwy roi hysbysiad i CNC.

### Establishment in Wales and the United Kingdom

3.—(1) In these Regulations, a person is established in—

- (a) Wales if—
  - (i) that person is habitually resident in Wales, or
  - (ii) the registered office of that person, or if they do not have a registered office, their head office, or principal place of business, is in Wales, or
  - (iii) paragraph (2) applies;
- (b) the United Kingdom if—
  - (i) that person is habitually resident in the United Kingdom, or
  - (ii) the registered office of that person, or if they do not have a registered office, their head office, or principal place of business, is in the United Kingdom.

(2) This paragraph applies if—

- (a) the registered office of that person, or if they have no registered office, their head office or principal place of business of that person is outside the United Kingdom,
- (b) the person has a branch or postal address in Wales, and
- (c) the person has not given notice to NRW under paragraph (3).

(3) Where a person to whom paragraph (2)(a) applies has a branch or postal address in Wales and in one or more other nations in the United Kingdom, that person may elect to be treated as established in one of those other nations instead of in Wales by giving notice to NRW.

(4) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (3) bennu'r wlad y mae'r person sy'n rhoi'r hysbysiad yn dymuno cael ei drin fel pe bai wedi ymsefydlu ynddi at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Pan gaiff CNC hysbysiad o ddewis o dan baragraff (3), rhaid iddo hysbysu rheoleiddiwr y DU yn y wlad a bennir yn yr hysbysiad.

#### **Addasiadau i'r Gyfarwyddeb Wastraff**

4.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'r Gyfarwyddeb Wastraff i'w darllen yn unol â'r rheoliad hwn.

(2) Mae cyfeiriad at un neu ragor o Aelod-wladwriaethau mewn darpariaeth sy'n gosod rhwymedigaeth neu'n rhoi disgresiwn i Aelod-wladwriaeth neu Aelod-wladwriaethau i'w ddarllen fel cyfeiriad at yr awdurdod, yr asiantaeth neu'r awdurdod lleol a oedd, yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, yn gyfrifol am gydymffurfedd y Deyrnas Unedig â'r rhwymedigaeth honno neu'n gallu arfer y disgresiwn hwnnw.

(3) Mae Erthygl 5 i'w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1, “Member States shall take appropriate measures to ensure that” wedi ei hepgor;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Any decision as to whether a substance or object is a by-product must be made—

- (a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and
- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;

(c) paragraffau 2 a 3 wedi eu hepgor.

(4) Mae Erthygl 6 i'w darllen fel pe bai—

- (a) ym mharagraff 1, “Member States shall take appropriate measures to ensure that” wedi ei hepgor;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff 1—

“1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—

- (a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and

(4) A notice given under paragraph (3) must specify the nation in which the person giving the notice wishes to be treated as established for the purposes of these Regulations.

(5) When NRW receives notice of an election under paragraph (3), it must notify the UK regulator in the nation specified in the notice.

#### **Modifications to the Waste Directive**

4.—(1) For the purposes of these Regulations, the Waste Directive is to be read in accordance with this regulation.

(2) A reference to one or more member States in a provision imposing an obligation or conferring a discretion on a member State or member States is to be read as a reference to the authority, agency or local authority which, immediately before implementation period completion day, was responsible for the United Kingdom's compliance with that obligation or able to exercise that discretion.

(3) Article 5 is to be read as if—

- (a) in paragraph 1, “Member States shall take appropriate measures to ensure that” were omitted;
- (b) after paragraph 1 there were inserted—

“1A. Any decision as to whether a substance or object is a by-product must be made—

- (a) in accordance with any regulations setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific substances or objects; and
- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;

(c) paragraphs 2 and 3 were omitted.

(4) Article 6 is to be read as if—

- (a) in paragraph 1, “Member States shall take appropriate measures to ensure that” were omitted;
- (b) after paragraph 1 there were inserted—

“1A. Any decision as to whether a substance or object has ceased to be waste must be made—

- (a) in accordance with any regulations or retained direct EU legislation setting out detailed criteria on the application of the conditions in paragraph 1 to specific types of waste; and

- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
- (c) ym mharagraff 2—
  - (i) yr is-baragraff cyntaf wedi ei hepgor;
  - (ii) yn yr ail is-baragraff, “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A” wedi ei roi yn lle “Those detailed criteria”;
  - (iii) y trydydd a’r pedwerydd is-baragraff wedi eu hepgor;
- (d) paragraff 3 wedi ei hepgor;
- (e) ym mharagraff 4—
  - (i) yn yr is-baragraff cyntaf—
    - (aa) yn y frawddeg gyntaf, “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a), the Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle’r geiriau o’r dechrau hyd at “Member State”;
    - (bb) yr ail frawddeg wedi ei hepgor;
  - (ii) yn yr ail is-baragraff—
    - (aa) “The Natural Resources Body for Wales” wedi ei roi yn lle “Member States”;
    - (bb) “by competent authorities” wedi ei hepgor.

- (b) having regard to any guidance published by the Welsh Ministers or the Natural Resources Body for Wales for the purposes of this Article.”;
- (c) in paragraph 2—
  - (i) the first subparagraph were omitted;
  - (ii) in the second subparagraph, for “Those detailed criteria” there were substituted “Any detailed criteria set out in guidance as referred to in paragraph 1A”;
  - (iii) the third and fourth subparagraphs were omitted;
- (d) paragraph 3 were omitted;
- (e) in paragraph 4—
  - (i) in the first subparagraph—
    - (aa) in the first sentence, for the words from the beginning to “Member State”, there were substituted “Where criteria have not been set out as referred to in paragraph 1A(a), the Natural Resources Body for Wales”;
    - (bb) the second sentence were omitted;
  - (ii) in the second subparagraph—
    - (aa) for “Member States” there were substituted “The Natural Resources Body for Wales”;
    - (bb) “by competent authorities” were omitted.

## Diod

5.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ac eithrio yn rheoliad 12(4), ystyr diod yw—

- (a) dŵr sy’n addas i’w yfed gan bobl,
- (b) diod sy’n addas i’w hyfed gan bobl,
- (c) diod chwaraeon sy’n addas i’w hyfed gan bobl, neu
- (d) hylif sydd, o’i baratoi mewn dull penodedig, yn ffurfio diod sy’n addas i’w hyfed gan bobl (gan gynnwys, er enghraifft, cordial ffrwythau neu sgwash ffrwythau) neu ddiod chwaraeon.

(2) Er mwyn osgoi amheuaeth, nid yw paragraff (1)(d) yn gymwys i hylif nad yw’n cael ei ddefnyddio ond fel cyflasyn neu felysydd mewn hylif arall sydd ynddo’i hun yn ffurfio diod sy’n addas i’w hyfed gan bobl.

## Drink

5.—(1) For the purposes of these Regulations, except in regulation 12(4), drink means—

- (a) water suitable for human consumption,
- (b) a beverage suitable for human consumption,
- (c) a sports drink suitable for human consumption, or
- (d) a liquid which, when prepared in a specified manner, constitutes a beverage suitable for human consumption (including, for example, a fruit cordial or a fruit squash) or a sports drink.

(2) For the avoidance of doubt, paragraph (1)(d) does not apply to a liquid which is used only as a flavouring or sweetener in another liquid which itself constitutes a beverage suitable for human consumption.

(3) Mae hylif wedi ei baratoi mewn dull penodedig os yw—

- (a) wedi ei wanedu,
- (b) wedi ei gyfuno ag iâ mâl, neu wedi ei brosesu er mwyn creu iâ mâl,
- (c) wedi ei gyfuno â charbon deuocsid, neu
- (d) wedi ei baratoi drwy broses sy'n cynnwys unrhyw gyfuniad o'r prosesau a grybwyllir yn is-baragraffau (a) i (c).

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr “diod chwaraeon” yw diod sy'n cael ei hysbysebu neu ei marchnata fel cynnyrch i wella perfformiad corfforol, ymadfer yn gynt ar ôl ymarfer corff neu fagu cyhyrau, neu ddiod arall debyg.

### **Pecynwaith a chategoriâu o becynwaith**

6.—(1) Ystyr “pecynwaith”, at ddibenion y Rheoliadau hyn, yw pob cynnyrch sydd wedi ei wneud o unrhyw ddeunyddiau o unrhyw natur i'w ddefnyddio i gynnwys, diogelu, trin, danfon a chyflwyno nwyddau, o ddeunyddiau crai i nwyddau wedi eu prosesu, oddi wrth y cynhyrchydd at y defnyddiwr neu'r treuliwr, gan gynnwys eitemau na ellir eu dychwelyd a ddefnyddir at yr un dibenion, ond dim ond pan fo'r cynhyrchion yn—

- (a) pecynwaith cynradd, sef pecynwaith a grëwyd i ffurfio uned werthu i'r defnyddiwr terfynol neu'r treuliwr terfynol yn y man prynu;
- (b) pecynwaith eilaidd, sef pecynwaith a grëwyd i ffurfio grŵp o nifer penodol o unedau gwerthu yn y man prynu, pa un a yw'n cael ei gyflenwi yn y modd hwnnw i'r defnyddiwr terfynol neu'r treuliwr terfynol neu pa un a yw'n cael ei ddefnyddio fel ffordd o ail-lenwi'r silffoedd yn y man gwerthu yn unig; gellir ei dynnu ymaith o'r cynnyrch heb effeithio ar nodweddion y cynnyrch;
- (c) pecynwaith trydyddol, sef pecynwaith a grëwyd i hwyluso trin a chludo nifer o unedau gwerthu neu becynwaith eilaidd er mwyn atal difrod wrth eu trin yn gorfforol a difrod wrth eu cludo, ac at ddibenion y Rheoliadau hyn, nid yw pecynwaith trydyddol yn cynnwys cynwysyddion a ddefnyddir ar y ffyrdd, ar y rheilffyrdd, ar longau ac yn yr awyr;
- (d) pecynwaith cludo, sef pecynwaith a ychwanegir yn ogystal â phecynwaith cynradd, ar eitemau sy'n cael eu gwerthu ar-lein neu drwy archeb drwy'r post naill ai a ddanfonir yn uniongyrchol i'r prynwr neu a gesglir gan y prynwr o siop neu o fan casglu arall ar ôl iddynt gael eu prynu.

(3) A liquid is prepared in a specified manner if it is—

- (a) diluted,
- (b) combined with crushed ice, or processed so as to create crushed ice,
- (c) combined with carbon dioxide, or
- (d) prepared by way of a process that involves any combination of the processes mentioned in sub-paragraphs (a) to (c).

(4) In this regulation, “sports drink” means a drink which is advertised or marketed as a product to enhance physical performance, accelerate recovery after exercise or build bulk, or other similar drink.

### **Packaging and packaging categories**

6.—(1) “Packaging”, for the purposes of these Regulations, means all products made of any materials of any nature to be used for the containment, protection, handling, delivery and presentation of goods, from raw materials to processed goods, from the producer to the user or the consumer, including non-returnable items used for the same purposes, but only where the products are—

- (a) primary packaging, which is packaging conceived so as to constitute a sales unit to the final user or consumer at the point of purchase;
- (b) secondary packaging, which is packaging conceived so as to constitute at the point of purchase a grouping of a certain number of sales units, whether it is supplied as such to the final user or consumer or whether it serves only as a means to replenish the shelves at the point of sale; it can be removed from the product without affecting the product's characteristics;
- (c) tertiary packaging, which is packaging conceived so as to facilitate handling and transport of a number of sales units or secondary packaging in order to prevent damage from physical handling and transport damage, and for the purposes of these Regulations, tertiary packaging does not include road, rail, ship and air containers;
- (d) shipment packaging, which is packaging added in addition to primary packaging, on items which are sold online or by a mail order which are either delivered direct to the purchaser or collected by the purchaser from a shop or other collection point after they have been purchased.



(2) Mae'r eitemau a ganlyn hefyd i'w trin fel pecynwaith ar sail y meini prawf a nodir isod—

- (a) eitemau sy'n bodloni'r diffiniad ym mharagraff (1), heb ragfarnu swyddogaethau eraill y gall yr eitem eu cyflawni, oni bai bod yr eitem yn rhan annatod o gynnyrch ac yn angenrheidiol er mwyn cynnwys, cynnal neu gadw'r cynnyrch hwnnw drwy gydol ei oes ac y bwriedir i bob elfen gael ei defnyddio, ei threulio neu ei gwaredu gyda'i gilydd;
- (b) eitemau a gynlluniwyd ac a fwriadwyd i gael eu llenwi yn y man gwerthu ac eitemau tafladwy a gyflenwir, a lenwir neu a gynlluniwyd ac a fwriadwyd i gael eu llenwi yn y man gwerthu, ar yr amod eu bod yn cyflawni swyddogaeth pecynwaith a ddisgrifir ym mharagraff (1);
- (c) ystyrir bod cydrannau pecynwaith ac elfennau ategol sydd wedi eu hintegreiddio mewn pecynwaith yn rhan o'r pecynwaith y maent wedi eu hintegreiddio ynddo, ac ystyrir bod elfennau ategol sydd wedi eu hongian yn uniongyrchol ar gynnyrch, neu sydd ynghlwm wrth gynnyrch, sy'n cyflawni swyddogaeth pecynwaith yn becynwaith oni bai eu bod yn rhan annatod o'r cynnyrch ac y bwriedir i bob elfen gael ei defnyddio, ei threulio neu ei gwaredu gyda'i gilydd.

(3) Mae Atodlen 5 i Reoliadau Pecynwaith (Gofynion Hanfodol) 2015(1) yn cynnwys enghreifftiau eglurhaol o gymhwyso'r meini prawf a nodir ym mharagraff (2).

(4) At ddiben y Rheoliadau hyn, mae pecynwaith a gwasttraff pecynwaith i'w trin fel pe baent yn dod o fewn un o'r categorïau o becynwaith a ganlyn, yn dibynnu ar y deunydd y gwnaed y pecynwaith ohono—

- (a) alwminiwm,
- (b) deunyddiau cyfansawdd sy'n seiliedig ar ffibr,
- (c) gwydr,
- (d) papur neu gardbord,
- (e) plastig,
- (f) dur,
- (g) pren, neu
- (h) deunyddiau eraill.

(5) Mae deunyddiau pecynwaith sydd wedi eu ffurfio o gyfuniad o'r deunyddiau y cyfeirir atynt ym mharagraff (4) ("deunyddiau paragraff (4)") i'w trin fel pe baent wedi eu gwneud o'r deunydd sy'n pwysu fwyaf, oni bai bod paragraff (6) yn gymwys.

(2) The following items are also to be treated as packaging on the basis of the criteria set out below—

- (a) items that fulfil the definition in paragraph (1), without prejudice to other functions which the item may perform, unless the item is an integral part of a product and it is necessary to contain, support or preserve that product throughout its lifetime and all elements are intended to be used, consumed or disposed of together;
- (b) items designed and intended to be filled at the point of sale and disposable items supplied, filled or designed and intended to be filled at the point of sale, provided they fulfil a packaging function described in paragraph (1);
- (c) packaging components and ancillary elements integrated into packaging are considered to be part of the packaging into which they are integrated, and ancillary elements hung directly on, or attached to, a product which performs a packaging function are considered to be packaging unless they are an integral part of the product and all elements are intended to be used, consumed or disposed of together.

(3) Schedule 5 to the Packaging (Essential Requirements) Regulations 2015(1) contains illustrative examples of the application of the criteria set out in paragraph (2).

(4) For the purpose of these Regulations, packaging and packaging waste are to be treated as falling into one of the following packaging categories, depending on the material from which the packaging is made—

- (a) aluminium,
- (b) fibre-based composite materials,
- (c) glass,
- (d) paper or board,
- (e) plastic,
- (f) steel,
- (g) wood, or
- (h) other materials.

(5) Packaging materials composed of a combination of the materials referred to in paragraph (4) ("paragraph (4) materials") are to be treated as made of the material which is predominant by weight, unless paragraph (6) applies.

---

(1) O.S. 2015/1640.

---

(1) S.I. 2015/1640.

(6) Pan fo deunyddiau pecynwaith wedi eu ffurfio o gyfrannau cyfartal o gyfuniad o ddeunyddiau paragraff (4) gwahanol, mae pob deunydd y mae'r deunyddiau pecynwaith wedi eu ffurfio ohono i'w drin ar wahân at ddiben y Rheoliadau hyn.

### **Pecynwaith cartref**

7.—(1) Yn y Rheoliadau hyn, “pecynwaith cartref” yw pecynwaith cynradd neu becynwaith cludo nad yw'n cael ei gyflenwi i fusnes sy'n ddefnyddiwr terfynol y pecynwaith hwnnw.

(2) Mae pob pecynwaith cynradd a pheccynwaith cludo i'w drin fel pecynwaith cartref oni bai bod y cynhyrchydd sy'n cyflenwi'r pecynwaith hwnnw'n gallu darparu tystiolaeth ei fod wedi ei gyflenwi i fusnes nad yw'n cyflenwi i unrhyw berson arall—

- (a) y pecynwaith, neu
- (b) y cynnyrch y mae'r pecynwaith yn ei gynnwys ar ei ffurf becynedig.

(3) At ddibenion paragraff (2), mae cynnyrch i'w drin fel pe bai'n cael ei gyflenwi ar ei ffurf becynedig oni bai bod yr holl becynwaith wedi ei dynnu ymaith o'r cynnyrch cyn ei gyflenwi i ddefnyddiwr terfynol y cynnyrch hwnnw.

(4) Caiff CNC ddyroddi canllawiau ar y dystiolaeth y caniateir ei defnyddio i ddangos bod pecynwaith cynradd neu becynwaith cludo yn cael ei gyflenwi i fusnes sy'n ddefnyddiwr terfynol y pecynwaith.

### **Cynhyrchwyr**

8.—(1) Mae person yn gynhyrchydd mewn perthynas â pheccynwaith a bennir yn y Rheoliadau hyn—

- (a) os yw wedi ymsefydlu yng Nghymru, a
- (b) os yw'n cyflawni yn unrhyw un neu ragor o wledydd y Deyrnas Unedig swyddogaethau un neu ragor o'r canlynol mewn perthynas â pheccynwaith, naill ai ar ei ran ei hun, neu drwy asiant yn gweithredu ar ei ran, ac yng nghwrs busnes—
  - (i) perchennog brand,
  - (ii) paciwr/llanwr,
  - (iii) mewnofiwr,
  - (iv) dosbarthwr,
  - (v) gweithredwr marchnadle ar-lein,
  - (vi) darparwr gwasanaeth, neu
  - (vii) gwerthwr.

(6) Where packaging materials are composed of a combination of different paragraph (4) materials in equal proportions, each material of which the packaging materials are comprised is to be treated separately for the purpose of these Regulations.

### **Household packaging**

7.—(1) In these Regulations, “household packaging” is primary or shipment packaging which is not supplied to a business which is the final user of that packaging.

(2) All primary packaging and shipment packaging is to be treated as household packaging unless the producer supplying that packaging can provide evidence that it has been supplied to a business which does not supply to any other person—

- (a) the packaging, or
- (b) the product which the packaging contains in its packaged form.

(3) For the purposes of paragraph (2), a product is to be treated as being supplied in its packaged form unless all packaging is removed from the product before it is supplied to the final user of that product.

(4) NRW may issue guidance on the evidence which may be used to demonstrate that primary packaging or shipment packaging is supplied to a business which is a final user of the packaging.

### **Producers**

8.—(1) A person is a producer in relation to the packaging specified in these Regulations if—

- (a) they are established in Wales, and
- (b) they perform in any nation of the United Kingdom the functions of one or more of the following in relation to packaging, either on their own behalf, or through an agent acting on their behalf, and in the course of business—
  - (i) a brand owner,
  - (ii) a packer/filler,
  - (iii) an importer,
  - (iv) a distributor,
  - (v) an online marketplace operator,
  - (vi) a service provider, or
  - (vii) a seller.

### *Perchennog brand*

(2) Oni bai bod paragraff (6) yn gymwys, ac yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae perchennog brand yn gynhyrchydd mewn perthynas ag—

- (a) pecynwaith wedi ei lenwi y mae brand y person hwnnw yn ymddangos arno; a
- (b) unrhyw becynwaith a gynhwysir o fewn pecynwaith wedi ei frandio, neu sy'n ffurfio rhan ohono (pa un a yw'r pecynwaith hwnnw wedi ei frandio ai peidio).

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), pan fo mwy nag un brand yn ymddangos ar becynwaith wedi ei lenwi, mae perchennog y brand sy'n gwneud y cyflenwad cyntaf o'r pecynwaith wedi ei lenwi fel un uned werthu i'w drin fel y perchennog brand a'r cynhyrchydd mewn perthynas â'r pecynwaith hwnnw.

(4) Pan fo nifer o gynhyrchion wedi eu brandio neu gynhyrchion nad ydynt wedi eu brandio (neu'r ddau) unigol gwahanol wedi eu grwpio gyda'i gilydd i'w gwerthu fel un uned werthu—

- (a) mae'r perchennog brand ar gyfer cynnyrch wedi ei frandio unigol o fewn yr uned werthu yn gynhyrchydd mewn perthynas â'r pecynwaith wedi ei frandio ar y cynnyrch unigol hwnnw;
- (b) mae'r paciwr/llanwr yn gynhyrchydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith nad yw wedi ei frandio o fewn yr uned werthu sy'n cael ei lenwi gan y paciwr/llanwr.

### *Paciwr/llanwr*

(5) Mae paciwr/llanwr yn gynhyrchydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith wedi ei lenwi—

- (a) sydd wedi ei lenwi gan y paciwr/llanwr, a
- (b) nad oes perchennog brand ar ei gyfer.

(6) Mae paciwr/llanwr hefyd yn gynhyrchydd—

- (a) pan—
  - (i) bo'r paciwr/llanwr wedi llenwi pecynwaith,
  - (ii) bo'r paciwr/llanwr wedi rhoi brand ar y pecynwaith er mwyn cynorthwyo gyda dosbarthu, ac nid ar gais y perchennog brand, a
  - (iii) na fo unrhyw frand arall ar y pecynwaith;
- (b) ar gyfer unrhyw becynwaith y mae'r paciwr/llanwr yn ei ychwanegu at becynwaith wedi ei frandio ac eithrio ar gais y perchennog brand.

### *Brand owner*

(2) Unless paragraph (6) applies, and subject to paragraph (4), a brand owner is a producer in relation to—

- (a) filled packaging on which that person's brand appears; and
- (b) any packaging contained within, or forming part of, branded packaging (whether or not that packaging is branded).

(3) Subject to paragraph (4), when more than one brand appears on filled packaging, the owner of the brand who makes the first supply of the filled packaging as a single sales unit is to be treated as the brand owner and producer in relation to that packaging.

(4) Where a number of different individual branded products or unbranded products (or both) are grouped together to be sold as a single sales unit—

- (a) the brand owner for an individual branded product within the sales unit is a producer in relation to the branded packaging on that individual product;
- (b) the packer/filler is a producer in relation to any unbranded packaging within the sales unit which is filled by the packer/filler.

### *Packer/filler*

(5) A packer/filler is a producer in relation to any filled packaging—

- (a) which is filled by the packer/filler, and
- (b) for which there is no brand owner.

(6) A packer/filler is also a producer—

- (a) where—
  - (i) the packer/filler has filled packaging,
  - (ii) the packer/filler has put a brand on the packaging to assist with distribution, and not at the request of the brand owner, and
  - (iii) there is no other brand on the packaging;
- (b) for any packaging which the packer/filler adds to branded packaging otherwise than at the request of the brand owner.

### *Mewnforiwr*

(7) Mae mewnforiwr yn gynhyrhydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith wedi ei lenwi a fewnforir i'r Deyrnas Unedig gan y mewnforiwr sydd—

- (a) yn becynwaith trydyddol, neu'n becynwaith eilaidd, neu
- (b) yn becynwaith arall—
  - (i) pan nad oes perchennog brand ar ei gyfer,
  - (ii) pan nad yw'r perchennog brand yn gyfrifol am fewnforio'r pecynwaith,
  - (iii) pan fo'r perchennog brand yn gyfrifol am fewnforio'r pecynwaith, ond nad yw'n gynhyrhydd mawr o dan y Rheoliadau hyn, neu
  - (iv) pan nad yw'r perchennog brand wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig.

(8) Mae mewnforiwr hefyd yn gynhyrhydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith a fewnforir gan y mewnforiwr i'r Deyrnas Unedig, a'i daflu yno.

### *Dosbarthwr*

(9) Mae dosbarthwr yn gynhyrhydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith nas llanwyd sydd—

- (a) yn cael ei weithgynhyrchu neu ei fewnforio gan y dosbarthwr, a
- (b) yn cael ei gyflenwi i berson nad yw'n gynhyrhydd mawr sy'n ddarostyngedig i rwymedigaethau o dan reoliad 15(4)(b) neu (3)(b),

ac eithrio pan fo perchennog brand yn cael ei drin fel cynhyrhydd y pecynwaith hwnnw ar ôl iddo gael ei lenwi.

### *Gweithredwr marchnadle ar-lein*

(10) Mae gweithredwr marchnadle ar-lein yn gynhyrhydd mewn perthynas ag—

- (a) unrhyw becynwaith ar eitemau a werthir yn ei farchnadle ar-lein gan berson, sy'n gweithredu yng nghwrs busnes, nad yw wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig, a
- (b) unrhyw becynwaith nas llanwyd a gyflenwir yn ei farchnadle ar-lein—
  - (i) gan berson, sy'n gweithredu yng nghwrs busnes, nad yw wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig;
  - (ii) i fusnes nad yw'n gynhyrhydd mawr sy'n ddarostyngedig i rwymedigaethau o dan reoliad 15(4)(b) neu (3)(b);

ar yr amod y daw'r pecynwaith i law yn y Deyrnas Unedig.

### *Importer*

(7) An importer is a producer in relation to any filled packaging imported into the United Kingdom by the importer which is—

- (a) tertiary packaging, or secondary packaging, or
- (b) any other packaging—
  - (i) for which there is no brand owner,
  - (ii) where the brand owner is not responsible for the import of the packaging,
  - (iii) where the brand owner is responsible for the import of the packaging, but is not a large producer under these Regulations, or
  - (iv) where the brand owner is not established in the United Kingdom.

(8) An importer is also a producer in relation to any packaging imported by the importer into, and discarded in, the United Kingdom.

### *Distributor*

(9) A distributor is a producer in relation to any unfilled packaging which is—

- (a) manufactured or imported by the distributor, and
- (b) supplied to a person who is not a large producer subject to obligations under regulation 15(4)(b) or (3)(b),

except where a brand owner is treated as the producer of that packaging once it is filled.

### *Online marketplace operator*

(10) An online marketplace operator is a producer in relation to—

- (a) any packaging on items which are sold on its online marketplace by a person, acting in the course of business, who is not established in the United Kingdom, and
- (b) any unfilled packaging supplied on its online marketplace—
  - (i) by a person, acting in the course of business, who is not established in the United Kingdom;
  - (ii) to a business which is not a large producer subject to obligations under regulation 15(4)(b) or (3)(b);

provided that the packaging is received in the United Kingdom.

### *Darparwr gwasanaeth*

(11) Mae darparwr gwasanaeth yn gynhyrchydd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith y gellir ei aildefnyddio, y tro cyntaf y cyflenwir y pecynwaith hwnnw, ond nid fel arall.

### *Gwerthwr*

(12) Mae gwerthwr pecynwaith wedi ei lenwi i dreuliwr y pecynwaith hwnnw yn gynhyrchydd mewn perthynas â'r pecynwaith hwnnw, ac at y dibenion hyn, y treuliwr yw'r person sy'n defnyddio'r pecynwaith o dan sylw ddiwethaf cyn ei daflu.

(13) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “brand” (“*brand*”) yw enw brand, nod masnach neu farc nodweddiadol arall;

ystyr “pecynwaith wedi ei frandio” (“*branded packaging*”) yw pecynwaith y mae brand y perchennog brand yn ymddangos arno;

ystyr “perchennog brand” (“*brand owner*”), yn ddarostyngedig i baragraff (3), yw person y mae ei frand yn ymddangos ar eitem o becynwaith wedi ei lenwi.

(14) At ddibenion y rheoliad hwn, mae person yn gweithredu “yng nghwrs busnes” os yw'n gweithredu yng nghwrs arferol cynnal masnach, galwedigaeth neu broffesiwn.

### **Ystyr ymadroddion sy'n ymwneud â thrwyddedwyr a busnesau gweithredu tafarn**

9.—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person (“T”) yn drwyddedwr pan fo T yn barti mewn cytundeb trwyddedu y mae T yn rhoi ynddo neu odano drwydded i rywun arall i ddefnyddio nod masnach.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person (“P”) yn fusnes gweithredu tafarn pan fo—

(a) P yn barti mewn cytundeb gweithredu tafarn y mae P yn rhoi ynddo neu odano les neu denantiaeth mangre yng Nghymru i rywun arall,

(b) y fangre honno yn cael ei defnyddio gan y tenant er mwyn cynnal gweithgarwch—

(i) gwerthu drwy fanwerthu alcohol i'w yfed yn y fangre, neu yn y fangre a heb fod yn y fangre, neu

(ii) cyflenwi alcohol drwy neu ar ran clwb i aelod o'r clwb, neu ar orchymyn aelod o'r clwb, neu'r ddau, i'w yfed yn y fangre, neu yn y fangre a heb fod yn y fangre, ac

(c) trwydded mangre mewn grym mewn cysylltiad â'r fangre.

### *Service provider*

(11) A service provider is a producer in relation to any reusable packaging, the first time that packaging is supplied, but not otherwise.

### *Seller*

(12) A seller of filled packaging to the consumer of that packaging is a producer in relation to that packaging, and for these purposes, the consumer is the person who last uses the packaging in question before discarding it.

(13) In these Regulations—

“brand” (“*brand*”) means a brand name, trade mark or other distinctive mark;

“brand owner” (“*perchennog brand*”) means, subject to paragraph (3), a person whose brand appears on an item of filled packaging;

“branded packaging” (“*pecynwaith wedi ei frandio*”) means packaging on which the brand owner's brand appears.

(14) For the purposes of this regulation, a person acts “in the course of business” if they act in the ordinary course of conduct of a trade, occupation or profession.

### **Meaning of expressions relating to licensors and pub operating businesses**

9.—(1) For the purposes of these Regulations, a person (“L”) is a licensor where L is a party to a licence agreement in or under which L grants a licence to use a trade mark to another.

(2) For the purposes of these Regulations, a person (“P”) is a pub operating business where—

(a) P is a party to a pub operating agreement in or under which P grants a lease or tenancy of premises in Wales to another,

(b) those premises are used by the tenant in order to carry on the activity of—

(i) the sale by retail of alcohol for consumption on the premises or both on and off the premises, or

(ii) the supply of alcohol by or on behalf of a club to, or to the order of, a member of the club or both, for consumption on the premises or both on and off the premises, and

(c) a premises licence is in force in respect of the premises.

(3) Yn y rheoliad hwn—

mae i “cyflenwi alcohol” yr un ystyr ag sydd i “supply of alcohol” yn adran 14 o Ddeddf 2003;

mae i “gwerthu drwy fanwerthu” mewn perthynas ag unrhyw alcohol yr un ystyr ag sydd i “sale by retail” yn adran 192 o Ddeddf 2003;

mae i “trwydded mangre” yr un ystyr ag sydd i “premises licence” yn adran 11 o Ddeddf 2003.

## Cyflenwi

**10.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, mae person yn “cyflenwi” pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith os yw'r person hwnnw'n gwneud unrhyw un neu ragor o'r canlynol, naill ai ei hun neu drwy asiant yn gweithredu ar ei ran, mewn perthynas â phecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith sy'n eiddo i'r person hwnnw—

- (a) ei werthu neu eu gwerthu, ei roi neu eu rhoi ar log, neu ei roi neu eu rhoi ar fenthyg,
- (b) ei ddarparu neu eu darparu yn gyfnewid am unrhyw gydnabyddiaeth heblaw arian,
- (c) ei ddarparu neu eu darparu wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth statudol, neu mewn cysylltiad â hynny, neu
- (d) ei roi neu eu rhoi yn wobwr neu yn rhodd fel arall.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae mewnofiwr i'w drin fel pe bai'n “cyflenwi” pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith y mae'r mewnofiwr yn ei fewnforio neu'n eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig ac yn ei daflu neu'n eu taflu yno.

(3) Pan fo'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith yn eiddo i berson nad oes ganddo swyddfa gofrestredig neu brif fan busnes yn y Deyrnas Unedig, mae cyflenwi yn digwydd pan fo person sydd wedi ymsefydlu yn y Deyrnas Unedig yn cyflawni unrhyw un neu ragor o'r gweithredoedd ym mharagraff (1) ar ran y perchennog mewn perthynas â'r pecynwaith hwnnw neu'r deunyddiau pecynwaith hynny.

(4) Pan fo'r pecynwaith yn becynwaith brand, mae'r perchennog brand i'w drin at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe bai'n cyflenwi'r pecynwaith hwnnw hyd yn oed os nad yw'r perchennog brand yn cyflawni yr un o'r gweithredoedd a restrir ym mharagraff (1) mewn perthynas â'r pecynwaith.

(5) Nid yw paragraff (4) yn gymwys mewn perthynas ag—

- (a) unrhyw becynwaith a fewnforir i'r Deyrnas Unedig gan—
  - (i) mewnofiwr, oni bai bod y mewnofiwr yn gweithredu fel asiant i'r perchennog brand, neu

(3) In this regulation—

“premises licence” (“*trwydded mangre*”) has the same meaning as in section 11 of the 2003 Act;

“sale by retail” (“*gwerthu drwy fanwerthu*”) in relation to any alcohol has the same meaning as in section 192 of the 2003 Act;

“supply of alcohol” (“*cyflenwi alcohol*”) has the same meaning as in section 14 of the 2003 Act.

## Supply

**10.**—(1) In these Regulations, a person “supplies” packaging or packaging materials if that person does any of the following, either themselves or through an agent acting on their behalf, in relation to packaging or packaging materials owned by that person—

- (a) selling, hiring out or lending,
- (b) providing in exchange for any consideration other than money,
- (c) providing in or in connection with the performance of any statutory function, or
- (d) giving as a prize or otherwise making a gift.

(2) In these Regulations, an importer is to be treated as “supplying” packaging or packaging materials which the importer imports into and discards in the United Kingdom.

(3) Where the packaging or packaging materials are owned by a person who does not have a registered office or principal place of business in the United Kingdom, a supply takes place when a person who is established in the United Kingdom performs any of the actions in paragraph (1) on behalf of the owner in relation to that packaging or packaging materials.

(4) Where the packaging is branded packaging, the brand owner is to be treated for the purposes of these Regulations as supplying that packaging even if the brand owner does not perform any of the actions listed in paragraph (1) in relation to the packaging.

(5) Paragraph (4) does not apply in relation to—

- (a) any packaging which is imported into the United Kingdom by—
  - (i) an importer, unless the importer is acting as an agent for the brand owner, or

- (ii) gweithredwr marchnadle ar-lein;
- (b) unrhyw becynwaith y gellir ei aildefnyddio a gyflenwir gan ddarparwr gwasanaeth.

- (ii) an online marketplace operator;
- (b) any reusable packaging supplied by a service provider.

### **Y meini prawf trothwy ar gyfer cynhyrchwyr mawr a bach**

**11.**—(1) Mae person yn gynhyrchydd mawr os yw'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff (3) neu (5).

(2) Mae person yn gynhyrchydd bach—

- (a) os yw'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff (4), ond nid y rhai ym mharagraff (3), neu
- (b) os yw'n bodloni'r meini prawf ym mharagraff (6), ond nid y rhai ym mharagraff (5).

(3) Mae person yn bodloni'r meini prawf yn y paragraff hwn—

- (a) os oedd trosiant y person hwnnw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf—
  - (i) y mae cyfrifon archwiliedig ar gael mewn cysylltiad â hi, neu
  - (ii) pan nad yw cyfrifon archwiliedig yn ofynnol ar gyfer y person hwnnw, y mae cyfrifon ar gael mewn cysylltiad â hi,
 cyn y dyddiad perthnasol yn fwy na £2,000,000, a
- (b) os triniodd y person yn y flwyddyn gyfrifo gyfanswm o fwy na 50 tunnell o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith.

(4) Mae person yn bodloni'r meini prawf yn y paragraff hwn—

- (a) os oedd trosiant y person hwnnw yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf—
  - (i) y mae cyfrifon archwiliedig ar gael mewn cysylltiad â hi, neu
  - (ii) pan nad yw cyfrifon archwiliedig yn ofynnol ar gyfer y person hwnnw, y mae cyfrifon ar gael mewn cysylltiad â hi,
 cyn y dyddiad perthnasol yn fwy nag £1,000,000, a
- (b) os triniodd y person yn y flwyddyn gyfrifo gyfanswm o fwy na 25 o dunelli o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith.

(5) Mae pob cwmni mewn grŵp o gwmnïau sy'n gynhyrchydd yn bodloni'r meini prawf yn y paragraff hwn—

- (a) os oedd cyfanswm trosiannau'r cwmnïau yn y grŵp sy'n gynhyrchwyr yn fwy na £2,000,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf y mae cyfrifon archwiliedig ar gael mewn cysylltiad â hi cyn y dyddiad perthnasol, a

### **Threshold criteria for large and small producers**

**11.**—(1) A person is a large producer if satisfying the criteria in paragraph (3) or (5).

(2) A person is a small producer if—

- (a) satisfying the criteria in paragraph (4), but not those in paragraph (3), or
- (b) satisfying the criteria in paragraph (6), but not those in paragraph (5).

(3) A person satisfies the criteria in this paragraph if—

- (a) that person's turnover in the last financial year—
  - (i) in respect of which audited accounts are available, or
  - (ii) where audited accounts are not required for that person, in respect of which accounts are available,
 before the relevant date was more than £2,000,000, and
- (b) in the calculation year the person handled in aggregate more than 50 tonnes of packaging or packaging materials.

(4) A person satisfies the criteria in this paragraph if—

- (a) that person's turnover in the last financial year—
  - (i) in respect of which audited accounts are available, or
  - (ii) where audited accounts are not required for that person, in respect of which accounts are available,
 before the relevant date was more than £1,000,000, and
- (b) in the calculation year the person handled in aggregate more than 25 tonnes of packaging or packaging materials.

(5) Each company in a group of companies which is a producer satisfies the criteria in this paragraph if—

- (a) the aggregate of the turnovers of the companies in the group which are producers was more than £2,000,000 in the last financial year in respect of which audited accounts are available before the relevant date, and

- (b) os yw cyfanswm y symiau o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a driniwyd gan bob un o'r cwmnïau hynny yn y flwyddyn gyfrifo yn fwy na 50 tonnelli o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith.

(6) Mae pob cwmni mewn grŵp o gwmnïau sy'n gynhyrchydd yn bodloni'r meini prawf yn y paragraff hwn—

- (a) os oedd cyfanswm trosiannau'r cwmnïau yn y grŵp sy'n gynhyrchwyr yn fwy nag £1,000,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf y mae cyfrifon archwiledig ar gael mewn cysylltiad â hi cyn y dyddiad perthnasol, a
- (b) os yw cyfanswm y symiau o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a driniwyd gan bob un o'r cwmnïau hynny yn y flwyddyn gyfrifo yn fwy na 25 o dunelli o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith.

(7) Pan fo person ("CU") yn gorff corfforedig a ffurfiwyd drwy uno dau neu ragor o gyrrff corfforedig—

- (a) mae trosiant CU ym mlwyddyn yr uno i'w gyfrifo at ddibenion y rheoliad hwn fel swm trosiannau, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, bob cwmni sydd wedi ei uno, a
- (b) mae CU i'w drin fel pe bai wedi trin ym mlwyddyn yr uno gyfanswm y swm o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a driniwyd gan bob un o'r cwmnïau hynny yn y flwyddyn gyfrifo.

(8) Pan fo asedau ac atebolrwyddau corff corfforedig ("CC") wedi eu rhannu rhwng dau neu ragor o gyrrff corfforedig ("cyrrff newydd"), ac nad oes cyfrifon archwiledig ar gael eto ar gyfer y cyrrff newydd—

- (a) mae pob corff newydd i'w drin fel pe bai ganddo drosiant sy'n hafal i—

$$\frac{A}{XA} \times XT$$

pan—

- (i) "A" yw gwerth asedau'r corff newydd yn dilyn y rhannu,
- (ii) "XA" yw gwerth asedau CC cyn y rhannu, a
- (iii) "XT" yw trosiant CC yn y flwyddyn cyn blwyddyn y rhannu, a
- (b) mae pob corff newydd i'w drin fel pe bai wedi trin swm o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith sy'n hafal i—

$$\frac{A}{XA} \times XP$$

- (b) in the calculation year the aggregate of the amounts of packaging or packaging materials handled by each such company is more than 50 tonnes of packaging or packaging materials.

(6) Each company in a group of companies which is a producer satisfies the criteria in this paragraph if—

- (a) the aggregate of the turnovers in the last financial year in respect of which audited accounts are available before the relevant date of the companies in the group which are producers was more than £1,000,000, and
- (b) in the calculation year the aggregate of the amounts of packaging or packaging materials handled by each such company is more than 25 tonnes of packaging or packaging materials.

(7) Where the person ("MB") is a corporate body which has been formed by the merger of two or more corporate bodies—

- (a) MB's turnover in the year of the merger is to be calculated for the purposes of this regulation as the sum of the turnovers in the last financial year of each company which has been merged, and
- (b) MB is to be treated as having handled in the year of the merger the sum of the amount of packaging or packaging materials handled by each of those companies in the calculation year.

(8) Where the assets and liabilities of a corporate body ("CB") have been divided between two or more corporate bodies ("new bodies"), and no audited accounts are yet available for the new bodies—

- (a) each new body is to be treated as having a turnover equal to—

$$\frac{A}{XA} \times XT$$

where—

- (i) "A" is the value of the assets of the new body following the division,
- (ii) "XA" is the value of the assets of CB before the division, and
- (iii) "XT" is the turnover of CB in the year preceding the division year, and
- (b) each new body is to be treated as having handled an amount of packaging or packaging materials equal to—

$$\frac{A}{XA} \times XP$$



pan fo i “A” ac “XA” yr ystyr a roddir yn is-baragraff (a), ac ystyr “XP” yw swm y pecynwaith neu’r deunyddiau pecynwaith a driniwyd gan CC yn y flwyddyn cyn blwyddyn y rhannu.

(9) At ddibenion y rheoliad hwn—

- (a) mae cyfrifon archwiledig i’w trin fel pe baent ar gael, pan fo’r person yn gwmni, pan fo cyfrifon blynyddol wedi eu danfon i’r cofrestrydd o dan adran 441 o Ddeddf Cwmnïau 2006;
- (b) “blwyddyn y rhannu” yw’r flwyddyn galendr y rhannwyd ynddi asedau ac atebolrwyddau CC rhwng dau neu ragor o gwmnïau;
- (c) ystyr y “dyddiad perthnasol” yw 7 Ebrill mewn blwyddyn rwymedigaeth;
- (d) ystyr “grŵp o gwmnïau” yw cwmni daliannol ac un neu ragor o is-gwmnïau, ac at y diben hwn, mae i “is-gwmni” a “cwmni daliannol” yr un ystyr ag sydd i “subsidiary” a “holding company” yn adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

(10) At ddibenion y rheoliad hwn, y swm o becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a drinnir gan berson (“P”) yw’r swm a gyflenwir yn unrhyw wlad yn y Deyrnas Unedig y mae P yn gynhyrchydd mewn cysylltiad ag ef o dan reoliad 8, wedi ei gyfrifo mewn tunelli i’r dunnell agosaf—

- (a) gan gynnwys pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a fewnforiwyd i’r Deyrnas Unedig gan P, neu gan asiant yn gweithredu ar ran P (ac at y dibenion hyn, mae pecynwaith yn cynnwys pecynwaith y gellir ei aildefnyddio y tro cyntaf y defnyddir y pecynwaith hwnnw);
- (b) heb gynnwys pecynwaith esempt.

(11) Os yw P yn cyflawni dwy neu ragor o swyddogaethau fel cynhyrchydd o dan reoliad 8 mewn perthynas â’r pecynwaith—

- (a) yn ddarostyngedig i is-baragraff (b), mae pob pecynwaith y mae P yn cyflawni swyddogaeth mewn perthynas ag ef i’w ystyried at ddibenion paragraffau (3)(b), (4)(b), (5)(b), (6)(b), (7)(b) ac (8)(b);
- (b) os yw’r swyddogaethau a gyflawnir gan P yn cael eu cyflawni mewn perthynas â’r un pecynwaith, nid yw’r pecynwaith hwnnw ond i’w ystyried unwaith at ddibenion paragraffau (3)(b), (4)(b), (5)(b), (6)(b), (7)(b) ac (8)(b).

(12) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “blwyddyn gyfrifo” (“*calculation year*”) yw’r flwyddyn galendr cyn blwyddyn rwymedigaeth;

where “A” and “XA” have the meaning given in sub-paragraph (a), and “XP” means the amount of packaging or packaging materials handled by CB in the year preceding the division year.

(9) For the purposes of this regulation—

- (a) audited accounts are to be treated as being available, where the person is a company, where annual accounts have been delivered to the registrar under section 441 of the Companies Act 2006;
- (b) “the division year” is the calendar year in which the assets and liabilities of CB were divided between two or more companies;
- (c) the “relevant date” is 7 April in an obligation year;
- (d) a “group of companies” means a holding company and one or more subsidiaries, and for this purpose, “subsidiary” and “holding company” have the same meaning as they have in section 1159 of the Companies Act 2006.

(10) For the purposes of this regulation, the amount of packaging or packaging materials handled by a person (“P”) is the amount supplied in any nation in the United Kingdom in respect of which the P is a producer under regulation 8, calculated in tonnes to the nearest tonne—

- (a) including packaging or packaging materials which were imported into the United Kingdom by P, or an agent acting on P’s behalf (and for these purposes, packaging includes reusable packaging on the first occasion that packaging is used);
- (b) excluding exempt packaging.

(11) If P performs two or more functions as a producer under regulation 8 in relation to the packaging—

- (a) subject to sub-paragraph (b), all packaging in relation to which P performs a function is to be taken into account for the purposes of paragraphs (3)(b), (4)(b), (5)(b), (6)(b), (7)(b) and 8(b);
- (b) if the functions P performs are performed in relation to the same packaging, that packaging is only to be taken into account once for the purposes of paragraphs (3)(b), (4)(b), (5)(b), (6)(b), (7)(b) and (8b).

(12) In this regulation—

“calculation year” (“*blwyddyn gyfrifo*”) means the calendar year preceding an obligation year;

ystyr “blwyddyn rwymedigaeth” (“*obligation year*”) yw blwyddyn galendr yr ystyrir mewn cysylltiad â hi a yw person yn ddarostyngedig i ofynion casglu data neu ofynion casglu ac adrodd am ddata o dan y Rheoliadau hyn.

### Pecynwaith esempt

12.—(1) Nid yw cynhyrchydd yn ddarostyngedig i rwymedigaethau casglu data na rhwymedigaethau adrodd mewn perthynas ag unrhyw becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith sy'n esempt mewn perthynas â'r cynhyrchydd hwnnw.

(2) Mae pecynwaith a deunyddiau pecynwaith yn esempt mewn perthynas â chynhyrchydd (“C”) at ddibenion y Rheoliadau hyn, pan fo'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith yn—

- (a) pecynwaith sy'n cael ei aildefnyddio sy'n becynwaith cynradd,
- (b) gweddillion cynhyrchu o gynhyrchu pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith neu o unrhyw broses gynhyrchu arall a ddigwyddodd cyn i C drin y pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith, neu sy'n digwydd wrth iddo wneud hynny neu ar ôl iddo wneud hynny,
- (c) unrhyw becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a allforiwyd o'r Deyrnas Unedig gan C, gan gynnwys pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a allforiwyd drwy asiant yn gweithredu ar ran C neu a allforiwyd fel arall, hyd y gŵyr C yn rhesymol, o'r Deyrnas Unedig (ac eithrio unrhyw becynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith a allforiwyd o'r Deyrnas Unedig i osodiad morol),
- (d) pecynwaith sy'n cael ei aildefnyddio sy'n becynwaith eilaidd neu drydyddol, ac eithrio unrhyw becynwaith sy'n cael ei aildefnyddio o'r fath a fewnforiwyd i'r Deyrnas Unedig, neu
- (e) pecynwaith sy'n becynwaith cynllun.

(3) Ym mharagraff (2)(c), ystyr “gosodiad morol” yw unrhyw ynys artiffisial, gosodiad neu strwythur ar y môr, heblaw llestr.

(4) Ym mharagraff (2)(e), ystyr “pecynwaith cynllun” yw pecynwaith ar gyfer eitem cynllun yr Alban a grëwyd neu a gynlluniwyd i ddod i gysylltiad uniongyrchol â diod (o fewn yr ystyr a roddir i “drink” yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllun Ernes a Dychwelyd yr Alban 2020(1)) ac nid yw'n cynnwys pecynwaith a grëwyd neu a gynlluniwyd i grwpio ynghyd nifer o gydrannau mewn pecyn aml-gynnwys.

---

(1) O.S.A. 2020/154. Diwygiwyd rheoliadau 2(1) a 3(2) gan O.S.A. 2022/76.

“obligation year” (“*blwyddyn rwymedigaeth*”) means a calendar year in respect of which it is being considered whether a person is subject to data collection requirements or data collecting and reporting requirements under these Regulations.

### Exempt packaging

12.—(1) A producer is not subject to data collection obligations or reporting obligations in relation to any packaging or packaging materials which is exempt in relation to that producer.

(2) Packaging and packaging materials are exempt in relation to a producer (“P”) for the purposes of these Regulations, where the packaging or packaging materials are—

- (a) re-used packaging which is primary packaging,
- (b) production residues from the production of packaging or packaging materials or from any other production process occurring before, during or after P handled the packaging or packaging materials,
- (c) any packaging or packaging materials exported from the United Kingdom by P, including packaging or packaging materials exported through an agent acting on P's behalf or which to P's reasonable knowledge were otherwise exported from the United Kingdom (with the exception of any packaging or packaging materials exported from the United Kingdom to a marine installation),
- (d) re-used secondary or tertiary packaging, with the exception of any such re-used packaging imported into the United Kingdom, or
- (e) packaging which is scheme packaging.

(3) In paragraph (2)(c), “marine installation” means any artificial island, installation or structure at sea, other than a vessel.

(4) In paragraph (2)(e), “scheme packaging” means the packaging for a Scottish scheme article that is conceived or designed to come in direct contact with a drink (within the meaning of regulation 2(1) of the Deposit and Return Scheme for Scotland Regulations 2020(1)) and does not include packaging conceived or designed to group together multiple components in a multipack.

---

(1) S.S.I. 2020/154. Regulations 2(1) and 3(2) have been amended by S.S.I. 2022/76.

(5) At ddibenion paragraff (4), ystyr “eitem cynllun yr Alban” yw “eitem cynllun” o fewn y diffiniad o “scheme article” a roddir yn rheoliad 3(2) o Reoliadau Cynllun Ernes a Dychwelyd yr Alban 2020, o’i ddarllen fel pe bai, ym mharagraff (b) o’r diffiniad hwnnw, “1 January 2023” wedi ei roi yn lle “16 August 2023”.

### **Eithrio elusennau rhag rhwymedigaethau casglu data ac adrodd am ddata**

**13.** Nid yw’r Rheoliadau hyn yn gymwys i elusen, ac at y dibenion hyn, mae “elusen” yn cynnwys unrhyw beth sy’n elusen—

- (a) o fewn yr ystyr a roddir i “charity” yn adran 1(1) o Ddeddf Elusennau 2011(1), neu
- (b) at ddibenion adran 202 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010(2).

### **Analluedd etc.**

**14.**—(1) Pan fo cynhyrhydd, mewn blwyddyn berthnasol, yn marw, yn mynd yn fethdalwr neu’n dod yn analluog (“y cynhyrhydd cyntaf”), mae’r person hwnnw yn peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn ar gyfer y flwyddyn honno.

(2) Mae unrhyw berson sy’n parhau â gweithgareddau’r cynhyrhydd cyntaf yn dilyn y digwyddiad hwnnw i’w drin fel cynhyrhydd ac mae i fod â rhwymedigaethau’r cynhyrhydd ar gyfer y flwyddyn honno a blynnyddoedd wedi hynny.

(3) Rhaid i unrhyw berson sy’n parhau â gweithgareddau’r cynhyrhydd cyntaf y cyfeirir ato ym mharagraff (1), o fewn 28 o ddiwrnodau yn dechrau â’r diwrnod y mae’r person hwnnw’n dechrau gwneud hynny, hysbysu CNC yn ysgrifenedig am y ffaith honno ac am ddyddiad y farwolaeth, y dyddiad yr aed yn fethdalwr neu natur yr analluedd a’r dyddiad y dechreuodd barhau â gweithgareddau’r cynhyrhydd cyntaf.

(4) Mewn perthynas â chynhyrhydd sy’n gwmni, mae’r cyfeiriadau at berson yn mynd yn fethdalwr neu’n dod yn analluog ym mharagraffau (1) a (3) i’w dehongli fel cyfeiriadau ato’n dod yn destun datodiad neu dderbynyddiad neu’n mynd i ddwylo’r gweinyddwyr.

(5) For the purposes of paragraph (4), a “Scottish scheme article” means a “scheme article” within the definition given in regulation 3(2) of the Deposit and Return Scheme for Scotland Regulations 2020, read as if, in paragraph (b) of that definition, for “16 August 2023” there were substituted “1 January 2023”.

### **Exclusion of charities from data collection and data reporting obligations**

**13.** These Regulations do not apply to a charity, and for these purposes, “charity” includes anything which is a charity—

- (a) within the meaning of section 1(1) of the Charities Act 2011(1), or
- (b) for the purposes of section 202 of the Corporation Tax Act 2010(2).

### **Incapacity etc**

**14.**—(1) Where in a relevant year a producer dies, becomes bankrupt or incapacitated (“the first producer”), that person ceases to be subject to any obligations under these Regulations for that year.

(2) Any person who carries on the activities of the first producer following that event is to be treated as a producer and to have the obligations of the producer for that year and subsequent years.

(3) Any person carrying on the activities of the first producer referred to in paragraph (1) must, within 28 days beginning with the day on which that person commences to do so, inform NRW in writing of that fact and the date of the death, the date of bankruptcy or the nature of the incapacity and the date on which it began carrying on the activities of the first producer.

(4) In relation to a producer which is a company, the references to a person becoming bankrupt or incapacitated in paragraphs (1) and (3) are to be construed as references to it going into liquidation or receivership or entering administration.

---

(1) 2011 p. 25.

(2) 2010 p. 4. Diwygiwyd adran 202 gan baragraff 27(2) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 (p. 13), adran 35(5) o Ddeddf Cyllid 2014 (p. 26) ac O.S. 2012/964.

---

(1) 2011 c. 25.

(2) 2010 c. 4. Section 202 has been amended by paragraph 27(2) of Schedule 6 to the Finance Act 2010 (c. 13), section 35(5) of the Finance Act 2014 (c. 26) and S.I. 2012/964.

## RHAN 2

### Cynhyrchwyr a rhwymedigaethau

#### Rhwymedigaethau cynhyrchwyr

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i gynhyrchydd ("C") fel y'i diffinnir o dan reoliad 8(1).

(2) Os yw C yn gynhyrchydd bach neu fawr sy'n berchennog brand neu'n baciwr/llanwr, mae C yn ddarostyngedig i—

- (a) y rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16(2), a
- (b) pan fo C yn gynhyrchydd mawr, y rhwymedigaethau adrodd am ddata yn rheoliad 17(1)(a) a (b).

(3) Os yw C yn gynhyrchydd bach neu fawr sy'n ddosbarthwr, yn fewnforiwr neu'n ddarparwr gwasanaeth, mae C yn ddarostyngedig i—

- (a) y rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16(3), a
- (b) pan fo C yn gynhyrchydd mawr—
  - (i) sy'n fewnforiwr neu'n ddarparwr gwasanaeth, y rhwymedigaethau adrodd am ddata yn rheoliad 17(1)(a) a (b), neu
  - (ii) sy'n ddosbarthwr, y rhwymedigaethau adrodd am ddata yn rheoliad 17(1)(a) ac (c).

(4) Os yw C yn gynhyrchydd bach neu fawr sy'n weithredwr marchnadle ar-lein, mae C yn ddarostyngedig i—

- (a) y rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16(4), a
- (b) pan fo C yn gynhyrchydd mawr, y rhwymedigaethau adrodd am ddata yn rheoliad 17(1)(a) a (d).

(5) Os yw C yn gynhyrchydd bach neu fawr sy'n werthwr, mae C yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16(5).

(6) Pan fo P yn gynhyrchydd bach neu fawr a bod P yn cyflawni mwy nag un swyddogaeth fel cynhyrchydd o dan reoliad 8 mewn perthynas â'r pecynwaith, mae P yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau a osodir o dan baragraffau (2) i (5), i'r graddau y bônt yn berthnasol, mewn perthynas â phob swyddogaeth y mae P yn ei chyflawni.

(7) Os yw C yn gynhyrchydd sy'n drwyddedwr neu'n fusnes gweithredu tafarn, mae Atodlen 2 yn gymwys er mwyn pennu a yw C yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16(6).

(8) Nid yw paragraff (7) yn effeithio ar unrhyw rhwymedigaethau sydd gan drwyddedwr neu fusnes gweithredu tafarn o dan y Rheoliadau hyn ac eithrio o dan Atodlen 2.

## PART 2

### Producers and obligations

#### Producer obligations

**15.**—(1) This regulation applies to a producer ("P") as defined under regulation 8(1).

(2) If P is a small or large producer who is a brand owner or packer/filler, P is subject to—

- (a) the data collection obligations in regulation 16(2), and
- (b) where P is a large producer, the data reporting obligations in regulation 17(1)(a) and (b).

(3) If P is a small or large producer who is a distributor, importer or service provider, P is subject to—

- (a) the data collection obligations in regulation 16(3), and
- (b) where P is a large producer—
  - (i) who is an importer or service provider, the data reporting obligations in regulation 17(1)(a) and (b), or
  - (ii) who is a distributor, the data reporting obligations in regulation 17(1)(a) and (c).

(4) If P is a small or large producer who is an online marketplace operator, P is subject to—

- (a) the data collection obligations in regulation 16(4), and
- (b) where P is a large producer, the data reporting obligations in regulation 17(1)(a) and (d).

(5) If P is small or large producer who is a seller, P is subject to the data collection obligations in regulation 16(5).

(6) Where P is a small or large producer and P performs more than one function as a producer under regulation 8 in relation to packaging, P is subject to the obligations imposed under paragraphs (2) to (5), so far as relevant, in relation to each function P performs.

(7) If P is a producer who is a licensor or a pub operating business, Schedule 2 applies to determine whether P is subject to the data collection obligations in regulation 16(6).

(8) Paragraph (7) does not affect any obligations which a licensor or a pub operating business has under these Regulations otherwise than under Schedule 2.

## Rhwymedigaethau casglu data

**16.**—(1) Mae'r rhwymedigaethau casglu data yn y rheoliad hwn fel a ganlyn.

*Cynhyrchydd bach neu fawr: perchennog brand neu baciwr/llanwr*

(2) At ddiben rheoliad 15(2)(a), rhaid i gynhyrchydd sy'n berchennog brand neu'n baciwr/llanwr gadw ar gyfer pob cyfnod casglu data, a dal gafael arni am o leiaf 7 mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod casglu data y mae'n ymwneud ag ef—

- (a) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd bach, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 10(2) o Atodlen 1, neu
- (b) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd mawr—
  - (i) yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 10(3)(a) ac 20(b) o Atodlen 1,
  - (ii) tystiolaeth o'r swm o wastraff pecynwaith y mae wedi ei gasglu a'i anfon i'w ailgylchu, fel yr adroddir amdano o dan baragraff 22(1) a (3) o Atodlen 1, a
  - (iii) tystiolaeth fod unrhyw wastraff pecynwaith perthnasol sydd wedi ei gynnwys yn y gwastraff pecynwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (ii) wedi ei ailgylchu.

*Cynhyrchydd bach neu fawr: dosbarthwr, mewnforiwr neu ddarparwr gwasanaeth*

(3) At ddiben rheoliad 15(3)(a), rhaid i gynhyrchydd sy'n ddosbarthwr, yn fewnforiwr neu'n ddarparwr gwasanaeth gadw ar gyfer pob cyfnod casglu data, a dal gafael arnynt neu arni am o leiaf 7 mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod casglu data y mae'n ymwneud ag ef—

- (a) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd bach, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 10(2) ac 20(a) o Atodlen 1, neu
- (b) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd mawr—
  - (i) cofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 10(3)(a) ac 20(c) o Atodlen 1,
  - (ii) tystiolaeth o'r swm o wastraff pecynwaith y mae wedi ei gasglu a'i anfon i'w ailgylchu, fel yr adroddir amdano o dan baragraff 22(1) a (3) o Atodlen 1, a

## Data collection obligations

**16.**—(1) The data collection obligations in this regulation are as follows.

*Small or large producer: brand owner or packer/filler*

(2) For the purpose of regulation 15(2)(a), a producer who is a brand owner or packer/filler must maintain for each data collection period, and retain for at least 7 years after the end of the data collection period to which they relate—

- (a) where the producer is a small producer, the information referred to in paragraph 10(2) of Schedule 1, or
- (b) where the producer is a large producer—
  - (i) the information referred to in paragraphs 10(3)(a) and 20(b) of Schedule 1,
  - (ii) evidence of the amount of packaging waste which they have collected and sent for recycling, as reported on under paragraph 22(1) and (3) of Schedule 1, and
  - (iii) evidence that any relevant packaging waste included in the packaging waste referred to in paragraph (ii) has been recycled.

*Small or large producer: distributor, importer or service provider*

(3) For the purpose of regulation 15(3)(a), a producer who is a distributor, importer or service provider must maintain for each data collection period, and retain for at least 7 years after the end of the data collection period to which they relate—

- (a) where the producer is a small producer, records of the information referred to in paragraphs 10(2) and 20(a) of Schedule 1, or
- (b) where the producer is a large producer—
  - (i) records of the information referred to in paragraphs 10(3)(a) and 20(c) of Schedule 1,
  - (ii) evidence of the amount of packaging waste which they have collected and sent for recycling, as reported on under paragraph 22(1) and (3) of Schedule 1, and

- (iii) tystiolaeth fod unrhyw wastraff pecynwaith perthnasol sydd wedi ei gynnwys yn y gwastraff pecynwaith y cyfeirir ato ym mharagraff (ii) wedi ei ailgylchu.

*Cynhyrchydd bach neu fawr: gweithredwr marchnadle ar-lein*

(4) At ddiben rheoliad 15(4)(a), rhaid i gynhyrchydd sy'n weithredwr marchnadle ar-lein gadw ar gyfer pob cyfnod casglu data, a dal gafael arnynt am o leiaf 7 mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod casglu data y maent yn ymwneud ag ef—

- (a) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd bach, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 17(a) ac 20(a) o Atodlen 1, neu
- (b) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd mawr, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 17(b) ac 20(c) o Atodlen 1.

*Cynhyrchydd bach neu fawr: gwerthwr*

(5) At ddiben rheoliad 15(5), rhaid i gynhyrchydd sy'n werthwr gadw ar gyfer pob cyfnod casglu data, a dal gafael arnynt am o leiaf 7 mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod casglu data y maent yn ymwneud ag ef—

- (a) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd bach, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 20(a) o Atodlen 1, neu
- (b) pan fo'r cynhyrchydd yn gynhyrchydd mawr, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 20(c) o Atodlen 1.

*Trwyddedwr a busnes gweithredu tafarn*

(6) At ddiben rheoliad 15(7), rhaid i gynhyrchydd sy'n drwyddedwr neu'n fusnes gweithredu tafarn gadw ar gyfer pob cyfnod casglu data, a dal gafael arnynt am o leiaf 7 mlynedd ar ôl diwedd y cyfnod casglu data y maent yn ymwneud ag ef, gofnodion o'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 20(d) o Atodlen 1.

(7) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "gwastraff pecynwaith perthnasol" yw—

- (a) gwastraff pecynwaith na chaiff ei gasglu o gartrefi i'w ailgylchu gan fwy na 75% o'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff, a
- (b) pecynwaith y gellir ei aildddefnyddio sydd wedi ei aildddefnyddio ac wedi mynd yn wastraff, pa un a yw'n cael ei gasglu o gartrefi i'w ailgylchu gan fwy na 75% o'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff ai peidio.

- (iii) evidence that any relevant packaging waste included in the packaging waste referred to in paragraph (ii) has been recycled.

*Small or large producer: online marketplace operator*

(4) For the purpose of regulation 15(4)(a), a producer who is an online marketplace operator must maintain for each data collection period, and retain for at least 7 years after the end of the data collection period to which they relate—

- (a) where the producer is a small producer, records of the information referred to in paragraphs 17(a) and 20(a) of Schedule 1, or
- (b) where the producer is a large producer, records of the information referred to in paragraphs 17(b) and 20(c) of Schedule 1.

*Small or large producer: seller*

(5) For the purpose of regulation 15(5), a producer who is a seller must maintain for each data collection period, and retain for at least 7 years after the end of the data collection period to which they relate—

- (a) where the producer is a small producer, records of the information referred to in paragraph 20(a) of Schedule 1, or
- (b) where the producer is a large producer, records of the information referred to in paragraph 20(c) of Schedule 1.

*Licensor and pub operating business*

(6) For the purpose of regulation 15(7), a producer who is a licensor or a pub operating business must maintain for each data collection period, and retain for at least 7 years after the end of the data collection period to which they relate, records of the information referred to in paragraph 20(d) of Schedule 1.

(7) In these Regulations, "relevant packaging waste" is—

- (a) packaging waste that is not collected from households for recycling by more than 75% of the relevant authorities in Wales responsible for waste collection, and
- (b) reusable packaging which has been re-used and has become waste, whether or not it is collected from households for recycling by more than 75% of relevant authorities in Wales responsible for waste collection.

## Rhwymedigaethau adrodd am ddata

17.—(1) Rhaid i gynhyrchydd mawr (“CM”) sy’n ddarostyngedig i rwymedigaethau yn y rheoliad hwn, yn ddarostyngedig i baragraff (2), adrodd am yr wybodaeth a ganlyn i CNC bob chwe mis yn unol â’r rheoliad hwn, ar ba ffurf bynnag a gyfarwyddir gan CNC—

- (a) yr wybodaeth yn Rhan 2 o Atodlen 1,
- (b) pan fo CM yn berchennog brand, yn baciwr/llanwr, yn fewnforiwr neu’n ddarparwr gwasanaeth, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 10(3) a 22 o Atodlen 1,
- (c) pan fo CM yn ddosbarthwr, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 10 i 16 a 22 o Atodlen 1, a
- (d) pan fo CM yn weithredwr marchnadle ar-lein, yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraffau 17(b) a 22 o Atodlen 1.

(2) Rhaid gwneud yr adroddiad cyntaf sy’n ofynnol o dan baragraff (1)—

- (a) ar gyfer y cyfnod sy’n dechrau â’r dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym (“y dyddiad cychwyn”) ac sy’n dod i ben â 31 Rhagfyr 2023, neu
- (b) os oes gan CM ddata i adrodd am y cyfnod o 1 Ionawr 2023 hyd y dyddiad cychwyn, ar gyfer y cyfnod sy’n dechrau â 1 Ionawr 2023 ac sy’n dod i ben â 31 Rhagfyr 2023,

a rhaid ei gyflwyno ar neu cyn 1 Ebrill 2024.

(3) Rhaid cyflwyno adroddiadau wedi hynny—

- (a) ar gyfer y chwe mis sy’n dod i ben â 30 Mehefin, ar neu cyn 1 Hydref yn yr un flwyddyn;
- (b) ar gyfer y chwe mis sy’n dod i ben â 31 Rhagfyr, ar neu cyn 1 Ebrill yn y flwyddyn ganlynol.

(4) Rhaid i CM sicrhau bod yr wybodaeth yr adroddir amdani i CNC o dan y rheoliad hwn—

- (a) mor gywir ag sy’n rhesymol bosibl, a
- (b) wedi ei dilysu drwy lofnod person a gymeradwywyd CM.

## Hysbysu am ddirwyn i ben, derbynyddiad, mynd i ddwylo’r gweinyddwyr, etc.

18.—(1) Rhaid i gynhyrchydd hysbysu CNC cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl dod i wybod bod un neu ragor o amgylchiadau perthnasol yn gymwys neu ar fin bod yn gymwys iddo.

## Data reporting obligations

17.—(1) A large producer (“LP”) who is subject to obligations in this regulation must, subject to paragraph (2), report the following information to NRW every six months in accordance with this regulation, in such form as NRW may direct—

- (a) the information in Part 2 of Schedule 1,
- (b) where LP is a brand owner, packer/filler, importer or service provider, the information referred to in paragraphs 10(3) and 22 of Schedule 1,
- (c) where LP is distributor, the information referred to in paragraphs 10 to 16 and 22 of Schedule 1, and
- (d) where LP is an online marketplace operator, the information referred to in paragraphs 17(b) and 22 of Schedule 1.

(2) The first report required under paragraph (1) must be made—

- (a) for the period beginning with the date on which these Regulations come into force (“the commencement date”) and ending with 31 December 2023, or
- (b) if LP does have data to report on the period from 1 January 2023 to the commencement date, for the period beginning with 1 January 2023 and ending with 31 December 2023,

and must be submitted on or before 1 April 2024.

(3) Subsequent reports must be submitted—

- (a) for the six months ending with 30 June, on or before 1 October in the same year;
- (b) for the six months ending with 31 December, on or before 1 April in the following year.

(4) LP must ensure that the information reported to NRW under this regulation—

- (a) is as accurate as reasonably possible, and
- (b) is verified by the signature of the approved person of LP.

## Notification of winding-up, receivership, administration, etc

18.—(1) A producer must inform NRW as soon as is practicable upon becoming aware that one or more relevant circumstances apply or are about to apply to them.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, “amgylchiadau perthnasol” yw—

- (a) yn achos corff corfforedig—
  - (i) bod gorchymyn dirwyn i ben wedi ei wneud neu fod cynnig dirwyn i ben yn wirfoddol wedi ei basio;
  - (ii) bod penderfyniad i ddirwyn i ben yn wirfoddol wedi ei wneud;
  - (iii) bod derbynydd neu reolwr ymgymeriad y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi ei benodi'n briodol;
  - (iv) bod ei ymgymeriad wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr;
  - (v) bod trefniant gwirfoddol a gynigiwyd at ddibenion Rhan 1 o Ddeddf Ansoffedd 1986(1) wedi ei gymeradwyo o dan y Rhan honno o'r Ddeddf;
- (b) yn achos unigolyn—
  - (i) bod moratoriwm wedi ei roi mewn gorchymyn rhyddhau o ddyled, o fewn yr ystyr a roddir i “debt relief order” gan adran 251A o Ddeddf Ansoffedd 1986;
  - (ii) bod cyfansoddiad neu drefniant wedi ei wneud gyda'r credydwyr;
  - (iii) bod derbynydd neu ymddiriedolwr methdaliad wedi ei benodi'n briodol;
  - (iv) bod gorchymyn methdalau wedi ei wneud.

### RHAN 3

#### Cynhyrchwyr a chynlluniau

##### Cynhyrchwyr ac aelodaeth o gynllun

19.—(1) Pan fo cynhyrhydd yn aelod o gynllun cofrestredig drwy gydol blwyddyn berthnasol, mae'r cynhyrhydd wedi ei esemptio rhag ei rwymedigaethau adrodd am ddata o dan reoliad 17 ar gyfer y flwyddyn berthnasol.

(2) Mae paragraff (1) yn gymwys os yw'r cynhyrhydd—

- (a) yn darparu unrhyw wybodaeth y mae gweithredwr y cynllun yn gofyn amdani at ddibenion bodloni ei rwymedigaethau o dan reoliad 20 o fewn cyfnod rhesymol i gael cais o'r fath,

(2) For the purposes of this regulation “relevant circumstances” are—

- (a) in the case of a corporate body—
  - (i) a winding-up order has been made or a resolution for voluntary winding-up has been passed;
  - (ii) a determination for a voluntary winding-up has been made;
  - (iii) a receiver or a manager of the company or limited liability partnership's undertaking has been duly appointed;
  - (iv) its undertaking has entered administration;
  - (v) a voluntary arrangement proposed for the purposes of Part 1 of the Insolvency Act 1986(1) has been approved under that Part of the Act;
- (b) in the case of an individual—
  - (i) a moratorium has been granted in a debt relief order, within the meaning of section 251A of the Insolvency Act 1986;
  - (ii) a composition or arrangement has been made with creditors;
  - (iii) a receiver or trustee in bankruptcy has been duly appointed;
  - (iv) a bankruptcy order has been made.

### PART 3

#### Producers and schemes

##### Producers and scheme membership

19.—(1) Where a producer is a member of a registered scheme throughout a relevant year, the producer is exempt from its data reporting obligations under regulation 17 for the relevant year.

(2) Paragraph (1) applies if the producer—

- (a) provides any information the operator of the scheme requests for the purposes of meeting its obligations under regulation 20 within a reasonable period of receiving such a request,

---

(1) 1986 p. 45

---

(1) 1986 c. 45.



- (b) yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir—
  - (i) ar ba ffurf bynnag a gyfarwyddir gan weithredwr y cynllun a CNC,
  - (ii) wedi ei dilysu drwy lofnod person a gymeradwywyd y cynhyrhydd, a
  - (iii) mor gywir ag sy'n rhesymol bosibl, ac
- (c) yn talu unrhyw ffi sy'n ofynnol am aelodaeth o'r cynllun.

- (b) ensures that the information provided—
  - (i) is in such form as the scheme operator and NRW may direct,
  - (ii) is verified by the signature of the approved person of the producer, and
  - (iii) is as accurate as reasonably possible, and
- (c) pays any fee required for membership of the scheme.

### Cynlluniau: darpariaethau cyffredinol

**20.**—(1) Rhaid i weithredwr cynllun cofrestredig (“GC”) gyflawni rhwymedigaethau adrodd am ddata o dan reoliad 17 bob cynhyrhydd sy'n aelod o gynllun y mae GC yn ei weithredu, ar yr amod bod y cynhyrhydd yn bodloni'r amodau yn rheoliad 19(2).

(2) Rhaid i GC gadw cofnodion o unrhyw wybodaeth a ddarperir i GC gan ei aelodau er mwyn galluogi GC i wneud yr adroddiadau sy'n ofynnol o dan baragraff (1), am o leiaf 7 mlynedd ar ôl y dyddiad y cyflwynir yr adroddiad i CNC.

### Newidiadau yng nghanol blwyddyn

**21.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran newidiadau i aelodaeth cynllun cofrestredig.

(2) Pan fo person sy'n gynhyrhydd mewn cysylltiad â blwyddyn berthnasol yn dod yn aelod o gynllun cofrestredig yn ystod y flwyddyn honno, rhaid i rwymedigaethau adrodd am ddata y cynhyrhydd sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn honno, y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(1), gael eu cyflawni drwy'r cynllun.

(3) Pan fo person sy'n gynhyrhydd mewn cysylltiad â blwyddyn berthnasol yn peidio â bod yn aelod o gynllun cofrestredig yn ystod y flwyddyn honno, rhaid i'r person hwnnw gydymffurfio â'i rwymedigaethau adrodd am ddata sy'n weddill ar gyfer y flwyddyn honno.

(4) Pan fo person sy'n gynhyrhydd mewn cysylltiad â blwyddyn yn peidio â bod yn aelod o un cynllun cofrestredig (“y cynllun cyntaf”) ac yn dod yn aelod o gynllun cofrestredig arall (“yr ail gynllun”) yn ystod y flwyddyn honno, nid yw'n ofynnol i'r cynllun cyntaf gyflawni unrhyw un neu ragor o rwymedigaethau adrodd am ddata'r cynhyrhydd sy'n weddill, y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(1), a rhaid i'r holl rwymedigaethau hynny gael eu cyflawni drwy'r ail gynllun.

### Schemes: general provisions

**20.**—(1) The operator of a registered scheme (“OS”) must carry out the data reporting obligations under regulation 17 of each producer who is a member of the scheme that OS operates, provided that the producer satisfies the conditions in regulation 19(2).

(2) OS must retain records of any information provided to OS by its members to enable OS to make the reports required under paragraph (1), for at least 7 years after the date on which the report is submitted to NRW.

### Mid-year changes

**21.**—(1) This regulation applies with regards to changes in membership of a registered scheme.

(2) Where a person who is a producer in respect of a relevant year becomes a member of a registered scheme during that year, the remaining data reporting obligations of the producer for that year, referred to in regulation 20(1), must be performed through the scheme.

(3) Where a person who is a producer in respect of a relevant year ceases to be a member of a registered scheme during that year, that person must comply with their remaining data reporting obligations for that year.

(4) Where a person who is a producer in respect of a year ceases to be a member of one registered scheme (“the first scheme”) and becomes a member of another registered scheme (“the second scheme”) during that year, the first scheme is not required to perform any of the producer's remaining data reporting obligations, referred to in regulation 20(1), and all such obligations must be performed through the second scheme.

## RHAN 4

### Pwerau a dyletswyddau CNC

#### Cyhoeddi eitemau a ailgylchir gan awdurdodau perthnasol

22. Rhaid i CNC gyhoeddi—

- (a) rhestr o'r eitemau a gesglir i'w hailgylchu o gartrefi gan bob awdurdod perthnasol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff, a
- (b) rhestr o'r eitemau hynny a gesglir i'w hailgylchu o gartrefi gan fwy na 75% o'r awdurdodau perthnasol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff.

#### Monitro

23.—(1) Rhaid i CNC fonitro yn unol â'r rheoliad hwn—

- (a) cydymffurfedd personau sy'n gynhyrchwyr neu a all fod yn gynhyrchwyr â'u rhwymedigaethau casglu data a'u rhwymedigaethau adrodd am ddata, a
- (b) cydymffurfedd gweithredwyr cynlluniau â'r rhwymedigaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 20(1).

(2) At ddibenion cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn, caiff CNC gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig (“hysbysiad gwybodaeth”)—

- (a) i unrhyw berson y mae arno, neu y mae gan CNC reswm i gredu bod arno, rwymedigaethau casglu data neu rwymedigaethau adrodd am ddata;
- (b) mewn perthynas ag unrhyw berson sy'n aelod o gynllun cofrestredig, i weithredwr y cynllun hwnnw.

(3) Caiff hysbysiad gwybodaeth ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw gadw cofnodion, a chyflenwi i CNC unrhyw ddata a bennir yn yr hysbysiad y mae CNC yn ystyried yn rhesymol fod ei angen arno at y dibenion hynny, ar ba ffurf bynnag ac o fewn pa gyfnod bynnag ar ôl cyflwyno'r hysbysiad, neu ar ba adeg bynnag, a bennir yn yr hysbysiad.

#### Personau a gymeradwywyd

24.—(1) Caiff CNC gymeradwyo person a restrir ym mharagraff (2) at ddibenion—

- (a) dilysu gwybodaeth yr adroddir amdani gan gynhyrchydd i CNC o dan reoliad 17(4)(b), neu

## PART 4

### NRW powers and duties

#### Publication of items recycled by relevant authorities

22. NRW must publish—

- (a) a list of the items which are collected for recycling from households by each relevant authority in Wales responsible for waste collection, and
- (b) a list of those items which are collected for recycling from households by more than 75% of the relevant authorities in Wales responsible for waste collection.

#### Monitoring

23.—(1) NRW must monitor in accordance with this regulation—

- (a) compliance with their data collection obligations and data reporting obligations by persons who are or may be producers, and
- (b) compliance by operators of schemes with the obligations referred to in regulation 20(1)

(2) For the purposes of the discharge of its functions under these Regulations, NRW may, serve a notice in writing (“an information notice”) on—

- (a) any person who has, or who NRW has reason to believe has, data collection obligations or data reporting obligations;
- (b) in relation to any person who is a member of a registered scheme, the operator of that scheme.

(3) An information notice may require that person to maintain records, and supply to NRW any data specified in the notice which NRW reasonably considers it needs for those purposes, in such form and within such period following service of the notice, or at such time, as is specified in the notice.

#### Approved persons

24.—(1) NRW may approve a person listed in paragraph (2) for the purposes of—

- (a) verifying information reported by a producer to NRW under regulation 17(4)(b), or

(b) dilysu gwybodaeth a ddarperir gan gynhyrchydd i weithredwr cynllun o dan reoliad 19(2)(b)(ii).

(2) Y personau a restrir, pan fo'r cynhyrchydd—

- (a) yn unigolyn, yw'r unigolyn hwnnw,
- (b) yn bartneriaeth, yw partner,
- (c) yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, yw aelod o'r bartneriaeth honno,
- (d) yn gwmni sydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig, yw cyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni y cwmni hwnnw,
- (e) yn gorff anghorfforedig, yw unigolyn sydd â rheolaeth dros y corff hwnnw neu sy'n rheoli'r corff hwnnw, neu
- (f) yn gwmni nad oes ganddo swyddfa gofrestredig yn y Deyrnas Unedig, yw unigolyn sydd â rheolaeth dros y cynhyrchydd neu sy'n rheoli'r cynhyrchydd.

(3) Yn ddarostyngedig i reoliad 25, caiff CNC gymeradwyo dirprwyo gan berson a gymeradwywyd swyddogaethau'r person i unrhyw berson arall.

(4) Caiff person a gymeradwywyd sydd wedi dirprwyo swyddogaethau o dan baragraff (3) barhau i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae gweithred gan ddirprwy yn cyflawni swyddogaethau person a gymeradwywyd ar ran y person hwnnw i'w drin fel gweithred y person a gymeradwywyd.

(6) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddogaethau" yw'r swyddogaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn.

#### **Dirprwyo swyddogaethau person a gymeradwywyd: y weithdrefn**

25.—(1) Rhaid i berson a gymeradwywyd sy'n cynnig dirprwyo ei swyddogaethau i berson arall o dan reoliad 24(3) wneud cais am gymeradwyaeth i CNC ar ffurflen a gyflenwir at y diben hwnnw gan CNC, wedi ei llofnodi gan y person a gymeradwywyd.

(2) Rhaid i gais am gymeradwyaeth o dan baragraff (1), o fewn 28 o ddiwrnodau i gael y cais—

- (a) cael ei ganiatáu pan fo CNC wedi ei fodloni y gall y dirprwy a gynigir, ac ystyried y ffactorau a bennir ym mharagraff (3), gyflawni'r swyddogaethau ar ran y person a gymeradwywyd, neu
- (b) cael ei wrthod fel arall.

(b) verifying information provided by a producer to the operator of a scheme under regulation 19(2)(b)(ii).

(2) The persons listed are, where the producer—

- (a) is an individual, that individual,
- (b) is a partnership, a partner,
- (c) is a limited liability partnership, a member of that partnership,
- (d) is a company registered in the United Kingdom, a director or company secretary of that company,
- (e) is an unincorporated body, an individual who has control or management of that body, or
- (f) is a company which does not have a registered office in the United Kingdom, an individual who has control or management of the producer.

(3) Subject to regulation 25, NRW may approve the delegation by an approved person of the person's functions to any other person.

(4) An approved person who has delegated functions under paragraph (3) may continue to perform those functions.

(5) For the purposes of these Regulations, an act of a delegate performing the functions of an approved person on that person's behalf is to be treated as an act of the approved person.

(6) In this regulation, "functions" means the functions referred to in paragraph (1) of this regulation.

#### **Delegation of approved persons' functions: procedure**

25.—(1) An approved person who proposes the delegation of their functions to another person under regulation 24(3) must apply for approval to NRW on a form supplied for that purpose by NRW, signed by the approved person.

(2) An application for approval under paragraph (1) must, within 28 days of receipt of the application—

- (a) be granted where NRW is satisfied that the proposed delegate, taking into account the factors specified in paragraph (3), is capable of carrying out the functions on behalf of the approved person, or
- (b) otherwise be refused.

(3) Y ffactorau a grybwyllir ym mharagraff (2)(a) yw—

- (a) os yw'r dirprwy a gynigir yn gyflogai i'r cynhyrchydd neu i weithredwr y cynllun, pa mor uchel yw safle'r dirprwy a gynigir,
- (b) os nad yw'r dirprwy a gynigir yn gyflogai i'r cynhyrchydd neu i weithredwr y cynllun, natur perthynas y dirprwy a gynigir â'r person a gymeradwywyd,
- (c) i ba raddau y mae'r dirprwy a gynigir yn gyfarwydd â'r wybodaeth sy'n angenrheidiol at ddibenion cyflawni'r swyddogaethau ar ran y person a gymeradwywyd, neu i ba raddau y mae ganddo fynediad at yr wybodaeth honno, a
- (d) unrhyw ffactor arall y mae CNC yn meddwl yn rhesymol ei fod yn berthnasol.

(4) Caiff cymeradwyaeth a ganiateir yn unol â pharagraff (2)(a) fod am ba gyfnod bynnag, neu'n ddarostyngedig i ba amodau eraill bynnag, a bennir gan CNC.

(5) Pan ganiateir cais am gymeradwyaeth yn unol â pharagraff (2)(a), rhaid i CNC hysbysu'r person a gymeradwywyd yn ysgrifenedig am hyn, ac am unrhyw amodau y mae wedi eu gosod yn unol â pharagraff (4), o fewn 28 o ddiwrnodau i'w benderfyniad.

(6) Caiff CNC benderfynu tynnu yn ôl gymeradwyaeth a ganiatawyd o dan baragraff (2)(a) ac, os gwneir penderfyniad o'r fath, rhaid iddo gyflwyno i'r person a gymeradwywyd hysbysiad ysgrifenedig am—

- (a) y penderfyniad i dynnu cymeradwyaeth yn ôl;
- (b) y rheswm dros y penderfyniad;
- (c) y dyddiad y mae'r tynnu yn ôl yn cael effaith, heb fod yn gynharach nag 28 o ddiwrnodau ar ôl dyddiad yr hysbysiad, gan ddechrau â dyddiad yr hysbysiad.

(7) Os yw person a gymeradwywyd yn cynnig dirymu dirprwyaeth a ganiatawyd o dan baragraff (2)(a), rhaid i'r person gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i CNC am hyn ac am y dyddiad pan fo'r dirymiad yn cael effaith, heb fod yn gynharach nag 28 o ddiwrnodau o ddyddiad yr hysbysiad.

(8) Yn y rheoliad hwn, ystyr "swyddogaethau" yw'r swyddogaethau y cyfeirir atynt yn rheoliad 24(1).

(3) The factors mentioned in paragraph (2)(a) are—

- (a) if the proposed delegate is an employee of the producer or the operator of the scheme, the proposed delegate's level of seniority,
- (b) if the proposed delegate is not an employee of the producer or the operator of the scheme, the nature of the proposed delegate's relationship with the approved person,
- (c) the degree of the proposed delegate's knowledge of, or access to, information necessary for the purposes of carrying out the functions on behalf of the approved person, and
- (d) any other factor which NRW reasonably thinks is relevant.

(4) An approval granted in accordance with paragraph (2)(a) may be for such period, or subject to such other conditions, as NRW may specify.

(5) Where an application for approval is granted in accordance with paragraph (2)(a), NRW must notify the approved person in writing of this, and of any conditions it has imposed pursuant to paragraph (4), within 28 days of its decision.

(6) NRW may decide to withdraw approval granted under paragraph (2)(a) and, if such a decision is taken, must serve on the approved person written notice of—

- (a) the decision to withdraw approval;
- (b) the reasons for the decision;
- (c) the date on which the withdrawal takes effect, not being earlier than 28 days after the date of the notice, beginning with the date of the notice.

(7) If an approved person proposes to revoke a delegation granted under paragraph (2)(a), the person must serve written notice on NRW of this and of the date when the revocation takes effect, not being earlier than 28 days from the date of the notice.

(8) In this regulation, "functions" means the functions referred to in regulation 24(1).

## Mynediad ac arolygu

26.—(1) Caiff CNC, at y dibenion perthnasol, awdurdodi yn ysgrifenedig berson yr ymddengys iddo ei fod yn addas i arfer yng Nghymru y pwerau mynediad ac arolygu y cyfeirir atynt ym mharagraff (3).

(2) Y dibenion perthnasol yw dibenion—

- (a) swyddogaethau CNC o dan y Rheoliadau hyn;
- (b) cynorthwyo rheoleiddiwr y DU arall sydd â swyddogaethau cyfatebol i CNC.

(3) Y pwerau mynediad ac arolygu yw'r rheini a nodir yn adran 108(4)(a) i (l) o Ddeddf 1995 (pwerau awdurdodau gorfodi a phersonau a awdurdodir ganddynt) o ran Cymru.

(4) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae adran 108(4) o Ddeddf 1995 i'w darllen fel pe bai cyfeiriadau at y person awdurdodedig yn gyfeiriadau at berson a awdurdodir o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn ac fel pe bai—

- (a) y geiriau “(or, in an emergency, at any time and, if need be, by force)” yn adran 108(4)(a) wedi eu hepgor;
- (b) yn adran 108(4)(f), “packaging and packaging materials found in land or any premises which that person has power to enter” wedi ei roi yn lle'r geiriau o “articles or substances” hyd at y diwedd;
- (c) adran 108(4)(g) wedi ei hepgor;
- (d) y cyfeiriadau yn adran 108(4)(h) at unrhyw eitem neu sylwedd yn gyfeiriadau at unrhyw sampl a gymerir neu y caniateir ei chymryd o dan adran 108(4)(f), fel y'i haddesir gan is-baragraff (b) ac fel pe bai'r cyfeiriadau at drosedd yn adran 108(4)(h)(iii) yn gyfeiriadau at drosedd o dan reoliad 28 o'r Rheoliadau hyn;
- (e) y cyfeiriad at gofnodion yn adran 108(4)(k)(i) yn gyfeiriadau at y cofnodion a'r wybodaeth y mae'n ofynnol eu cadw a'u darparu i CNC o dan y Rheoliadau hyn;
- (f) y geiriau “(other than an article or substance within paragraph (g))” yn adran 108(4)(ka)(ii) wedi eu hepgor;
- (g) y cyfeiriad yn adran 108(4)(l) at y pŵer a roddir gan adran 108 yn gyfeiriad at y pŵer a roddir gan y rheoliad hwn.

(5) Mae darpariaethau adran 108(6) i (7F) ac adran 108A o Ddeddf 1995 yn gymwys i'r pwerau a roddir gan baragraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn fel y maent yn gymwys i'r pwerau a roddir gan adran 108(4) o Ddeddf 1995 yn y drefn honno fel y mae'n gymwys o

## Entry and inspection

26.—(1) NRW may, for the relevant purposes, authorise in writing a person who appears suitable to it to exercise in Wales the powers of entry and inspection referred to in paragraph (3).

(2) The relevant purposes are the purposes of—

- (a) the functions of NRW under these Regulations;
- (b) assisting another UK regulator which has equivalent functions to NRW.

(3) The powers of entry and inspection are those set out in section 108(4)(a) to (l) of the 1995 Act (powers of enforcing authorities and persons authorised by them) in relation to Wales.

(4) For the purposes of these Regulations, section 108(4) of the 1995 Act is to be read as if references to the authorised person were references to a person authorised under paragraph (1) of this regulation and as if—

- (a) the words “(or, in an emergency, at any time and, if need be, by force)” in section 108(4)(a) were omitted;
- (b) in section 108(4)(f), for the words from “articles or substances” to the end, there were substituted “packaging and packaging materials found in land or any premises which that person has power to enter”;
- (c) section 108(4)(g) were omitted;
- (d) the references in section 108(4)(h) to any article or substance were to any sample which is or may be taken under section 108(4)(f), as modified by sub-paragraph (b) and as if the references to an offence in section 108(4)(h)(iii) were to an offence under regulation 28 of these Regulations;
- (e) the reference to records in section 108(4)(k)(i) were to the records and information required to be kept and provided to NRW under these Regulations;
- (f) the words “(other than an article or substance within paragraph (g))” in section 108(4)(ka)(ii) were omitted;
- (g) the reference in section 108(4)(l) to the power conferred by section 108 were to the power conferred by this regulation.

(5) The provisions of section 108(6) to (7F) and section 108A of the 1995 Act apply to the powers conferred by paragraphs (1) and (2) of this regulation as they apply to the powers conferred by section 108(4) of the 1995 Act respectively as it applies in relation to

ran Cymru, ond fel pe bai unrhyw gyfeiriad at berson awdurdodedig yn gyfeiriad at berson a awdurdodwyd o dan baragraff (1) o'r rheoliad hwn, ac fel pe bai—

- (a) yn adran 108(6) a (7), y geiriau “Except in an emergency” wedi eu hepgor;
- (b) yn adran 108(6), y geiriau “or to take heavy equipment on to any premises which are to be entered” wedi eu hepgor;
- (c) yn adran 108(7B)(a), y cyfeiriad at ddeddfiadau rheoli llygredd neu ddeddfiadau gweithgarwch rheoli llifogydd yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn.

(6) Mae darpariaethau adran 108(12), (12A) a (13) o Ddeddf 1995, fel y maent yn gymwys o ran Cymru, yn gymwys i'r pwerau a roddir gan baragraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn fel y maent yn gymwys i'r pwerau a roddir gan adran 108(4) o Ddeddf 1995.

(7) Mae darpariaethau paragraffau 2 i 6 o Atodlen 18 i Ddeddf 1995 (darpariaethau atodol mewn cysylltiad â phwerau mynediad), fel y maent yn gymwys o ran Cymru, yn gymwys i'r pwerau a roddir gan y rheoliad hwn fel y maent yn gymwys i'r pwerau a roddir gan adran 108 o Ddeddf 1995 yn y drefn honno, ond fel pe bai unrhyw gyfeiriad—

- (a) at berson dynodedig yn gyfeiriad at berson a awdurdodir yn ysgrifenedig gan CNC i arfer ar ei ran unrhyw bŵer a roddir gan y rheoliad hwn,
- (b) at bŵer perthnasol yn gyfeiriad at bŵer a roddir gan y rheoliad hwn, gan gynnwys pŵer sy'n arferadwy yn rhinwedd gwarant o dan ddarpariaethau'r Atodlen fel y'u cymhwysir gan y paragraff hwn, ac
- (c) ym mharagraff 6(1) at adran 108(4)(a) neu (b) neu (5) o Ddeddf 1995 yn gyfeiriad at baragraff (1) o'r rheoliad hwn.

(8) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “Deddf 1995” (“*the 1995 Act*”) yw Deddf yr Amgylchedd 1995(1);

ystyr “gwarant” (“*warrant*”) yw gwarant o dan y darpariaethau a nodir yn Atodlen 18 i Ddeddf 1995 fel y'u cymhwysir gan baragraff (7) o'r rheoliad hwn.

## Rhannu gwybodaeth

27. Caiff CNC rannu unrhyw wybodaeth y mae'n ei chael o dan y Rheoliadau hyn â'r endidau a ganlyn er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaethau—

- (a) rheoleiddiwr y DU arall,

Wales, but as if any reference to an authorised person were to a person authorised under paragraph (1) of this regulation, and as if—

- (a) in section 108(6) and (7), the words “Except in an emergency” were omitted;
- (b) in section 108(6), the words “or to take heavy equipment on to any premises which are to be entered” were omitted;
- (c) in section 108(7B)(a), the reference to pollution control enactments or flood risk activity enactments were a reference to these Regulations.

(6) The provisions of section 108(12), (12A) and (13) of the 1995 Act, as they apply in relation to Wales, apply to the powers conferred by paragraphs (1) and (2) of this regulation as they apply to the powers conferred by section 108(4) of the 1995 Act.

(7) The provisions of paragraphs 2 to 6 of Schedule 18 to the 1995 Act (supplemental provisions with respect to powers of entry), as they apply in relation to Wales, apply to the powers conferred by this regulation as they apply to the powers conferred by section 108 of the 1995 Act respectively, but as if any reference—

- (a) to a designated person were to a person authorised in writing by NRW to exercise on its behalf any power conferred by this regulation,
- (b) to a relevant power were to a power conferred by this regulation, including a power exercisable by virtue of a warrant under the provisions of the Schedule as applied by this paragraph, and
- (c) in paragraph 6(1) to section 108(4)(a) or (b) or (5) of the 1995 Act were to paragraph (1) of this regulation.

(8) In this regulation—

“the 1995 Act” (“*Deddf 1995*”) means the Environment Act 1995(1);

“warrant” (“*gwarant*”) means a warrant under the provisions set out in Schedule 18 to the 1995 Act as applied by paragraph (7) of this regulation.

## Information sharing

27. NRW may share any information it receives under these Regulations with the following entities to enable them to carry out their functions—

- (a) another UK regulator,

(1) 1995 p. 25

(1) 1995 c. 25

- (b) Gweinidogion Cymru, neu
- (c) unrhyw endid neu swyddfa a awdurdodir gan Weiniogion Cymru i gael yr wybodaeth honno.

- (b) the Welsh Ministers, or
- (c) any entity or office authorised by the Welsh Ministers to receive that information.

## RHAN 5

### Gorfodi

#### Troseddau a chosbau

**28.**—(1) Mae person sy'n torri'r gofyniad yn rheoliad 14(3) (hysbysiad i CNC) yn euog o drosedd.

(2) Mae cynhyrchydd yn euog o drosedd os yw'n torri gofyniad o dan unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) rheoliad 16 (rhwymedigaethau casglu data);
- (b) rheoliad 17(2) a (3) (rhwymedigaethau adrodd am ddata);
- (c) rheoliad 18 (hysbysu am ddirwyn i ben, derbynyddiad, mynd i ddwylo'r gweinyddwyr etc).

(3) Mae gweithredwr cynllun cofrestredig yn euog o drosedd os yw'n torri gofyniad o dan unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

- (a) rheoliad 20(1) (rhwymedigaethau adrodd);
- (b) rheoliad 20(2) (rhwymedigaethau cadw cofnodion).

(4) Mae person sy'n darparu unrhyw wybodaeth i CNC mewn cysylltiad â swyddogaethau'r corff o dan y Rheoliadau hyn yn euog o drosedd os yw'r person hwnnw, wrth ddarparu'r wybodaeth—

- (a) yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol, neu
- (b) yn darparu'r wybodaeth honno yn ddi-hid, a'r wybodaeth yn anwir neu'n gamarweiniol o ran manylyn perthnasol.

(5) Mae person sy'n methu heb esgus rhesymol â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir mewn hysbysiad o dan reoliad 23(2) (monitro) yn euog o drosedd.

(6) Mae person sydd—

- (a) yn methu, heb esgus rhesymol, â rhoi unrhyw gynhorthwy neu wybodaeth i swyddog o CNC ("swyddog") y mae'n rhesymol ofynnol i'r swyddog hwnnw ei gael neu ei chael wrth arfer ei bwerau o dan reoliad 26, neu
- (b) yn fwriadol yn peri oedi neu rwystr i swyddog wrth arfer pwerau y cyfeirir atynt yn rheoliad 26,

yn euog o drosedd.

## PART 5

### Enforcement

#### Offences and penalties

**28.**—(1) A person who contravenes the requirement in regulation 14(3) (notice to NRW) is guilty of an offence.

(2) A producer is guilty of an offence if contravening a requirement under any of the following—

- (a) regulation 16 (data collection obligations);
- (b) regulation 17(2) and (3) (data reporting obligations);
- (c) regulation 18 (notification of winding-up, receivership, administration etc).

(3) The operator of a registered scheme is guilty of an offence if contravening a requirement under any of the following—

- (a) regulation 20(1) (reporting obligations);
- (b) regulation 20(2) (record retention obligations).

(4) A person who furnishes any information to NRW in connection with the body's functions under these Regulations is guilty of an offence if, in furnishing the information, that person—

- (a) knows the information to be false or misleading in a material particular, or
- (b) provides such information recklessly, and the information is false or misleading in a material particular.

(5) A person who fails without reasonable excuse to comply with any requirement imposed in a notice under regulation 23(2) (monitoring) is guilty of an offence.

(6) A person who—

- (a) fails, without reasonable excuse, to give an officer of NRW (an "officer") any assistance or information which that officer reasonably requires in the exercise of their powers under regulation 26, or
- (b) intentionally delays or obstructs an officer in the exercise of powers referred to in regulation 26,

is guilty of an offence.

(7) Mae trosedd o dan unrhyw un neu ragor o baragraffau (1) i (6) i'w chosbi—

- (a) ar euogfarn ar ddiad, drwy ddirwy, neu
- (b) ar euogfarn ddiannod, drwy ddirwy.

(8) Pan—

- (a) bo trosedd o dan y Rheoliadau hyn wedi ei chyflawni gan gorff corfforedig neu gan gymdeithas anghorfforedig, a
- (b) profir bod y drosedd wedi ei chyflawni gyda chydysyniad neu ymoddefiad, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran—
  - (i) unigolyn perthnasol, neu
  - (ii) unigolyn sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unigolyn perthnasol,

mae'r unigolyn hwnnw yn ogystal â'r corff corfforedig neu'r gymdeithas anghorfforedig yn cyflawni trosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(9) Os yw trosedd a gyflawnir gan berson o dan y rheoliad hwn o ganlyniad i weithred neu ddiffyg rhyw berson arall, mae'r person arall hwnnw hefyd yn euog o'r drosedd ac yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny, pa un a yw'r person a grybwyllir gyntaf yn cael ei erlyn am y drosedd ai peidio.

(10) Ym mharagraff (8), ystyr “unigolyn perthnasol” yw—

- (a) mewn perthynas â chorff corfforedig—
  - (i) cyfarwyddwr, aelod o'r pwyllgor rheoli, prif weithredwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall i'r corff, neu berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn unrhyw rinwedd o'r fath;
  - (ii) pan reolir materion y corff gan ei aelodau, aelod;
- (b) mewn partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, aelod;
- (c) mewn perthynas â phartneriaeth heblaw partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, partner;
- (d) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig heblaw partneriaeth, person sy'n ymwneud â rheoli'r gymdeithas neu sydd â rheolaeth drosti.

## Gorfodi

**29.** Gorfodir y Rheoliadau hyn gan CNC.

(7) An offence under any of paragraphs (1) to (6) is punishable—

- (a) on conviction on indictment, by a fine, or
- (b) on summary conviction, by a fine.

(8) Where—

- (a) an offence under these Regulations has been committed by a body corporate or an unincorporated association, and
- (b) it is proved that the offence was committed with the consent or connivance of, or was attributable to any neglect on the part of—
  - (i) a relevant individual, or
  - (ii) an individual purporting to act in the capacity of a relevant individual,

the individual as well as the body corporate or unincorporated association commits an offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(9) If an offence committed by a person under this regulation is due to the act or default of some other person, that other person is also guilty of the offence and liable to be proceeded against and punished accordingly, whether or not proceedings for the offence are taken against the first-mentioned person.

(10) In paragraph (8), “relevant individual” means—

- (a) in relation to a body corporate—
  - (i) a director, member of the committee of management, chief executive, manager, secretary or other similar officer of the body, or a person purporting to act in any such capacity;
  - (ii) where the affairs of the body are managed by its members, a member;
- (b) in a limited liability partnership, a member;
- (c) in relation to a partnership other than a limited liability partnership, a partner;
- (d) in relation to an unincorporated association other than a partnership, a person who is concerned in the management or control of the association.

## Enforcement

**29.** These Regulations are enforced by NRW.



*Julie James*

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion  
Cymru  
12 Gorffennaf 2023

Minister for Climate Change, one of the Welsh  
Ministers  
12 July 2023

ATODLEN 1 Rheoliadau 16 a 17  
Casglu ac adrodd am wybodaeth

RHAN 1  
Dehongli

1. Yn yr Atodlen hon—

- (a) ystyr “cyfnod adrodd cyntaf” yw—
  - (i) y cyfnod sy’n dechrau ar y dyddiad y daw’r Rheoliadau hyn i rym ac sy’n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023, neu
  - (ii) pan fo rheoliad 17(2)(b) yn gymwys, y cyfnod o ddeuddeg mis sy’n dechrau ar 1 Ionawr 2023 ac sy’n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023;
- (b) ystyr “cyfnod adrodd”, heblaw’r cyfnod adrodd cyntaf, yw cyfnod o chwe mis sy’n dechrau ar 1 Ionawr neu 1 Gorffennaf;
- (c) ystyr “cyfnod perthnasol” yw’r cyfnod casglu data ar gyfer gwybodaeth sy’n ofynnol at ddibenion rheoliad 16, a’r cyfnod adrodd at ddibenion rheoliad 17;
- (d) mae cyfeiriadau at bwysau pecynwaith mewn cilogramau neu dunelli yn gyfeiriadau at bwysau gwirioneddol, mesuredig y pecynwaith hwnnw mewn cilogramau i’r cilogram agosaf, neu mewn tunelli i’r dunnell agosaf.

RHAN 2  
Gwybodaeth gyffredinol

2. Enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddfa gofrestredig y cynhyrchydd neu, os nad cwmni ydyw, prif swyddfa neu brif fan busnes y cynhyrchydd.

3. Enw busnes y cynhyrchydd os yw’n wahanol i’r enw y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

4. Enw a manylion cyswllt yr unigolyn yn y cynhyrchydd sy’n gyfrifol am ddelio ag ymholiadau gan CNC.

5. Y cyfeiriad ar gyfer cyflwyno hysbysiadau i’r cynhyrchydd os yw’n wahanol i’r cyfeiriad y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

6. Pan fo’r cynhyrchydd yn bartneriaeth, enwau’r holl bartneriaid.

SCHEDULE 1 Regulations 16 and 17  
Collection and reporting of information

PART 1  
Interpretation

1. In this Schedule—

- (a) “first reporting period” means—
  - (i) the period starting on the date on which these Regulations come into force and ending on 31 December 2023, or
  - (ii) where regulation 17(2)(b) applies, the period of twelve months starting on 1 January 2023 and ending on 31 December 2023;
- (b) “reporting period”, other than the first reporting period, means a period of six months starting on 1 January or 1 July;
- (c) “relevant period” means the data collection period for information required for the purposes of regulation 16, and the reporting period for the purposes of regulation 17;
- (d) references to the weight of packaging in kilograms or tonnes are references to the actual, measured weight of that packaging in kilograms to the nearest kilogram, or in tonnes to the nearest tonne.

PART 2  
General Information

2. The name, address and telephone number of the registered office of the producer or, if not a company, the head office or principal place of business of the producer.

3. The business name of the producer if different from that referred to in paragraph 2.

4. The name and contact details for the individual at the producer who is responsible for dealing with enquiries from NRW.

5. The address for service of notices on the producer if different from that referred to in paragraph 2.

6. Where the producer is a partnership, the names of all the partners.

7. Pob dosbarth ar gynhyrchydd y mae'r cynhyrchydd yn perthyn iddo.

8. Os yw'n perthyn i fwy nag un dosbarth ar gynhyrchydd, pa un o'r dosbarthau hynny sy'n ffurfio ei brif weithgarwch fel cynhyrchydd.

9. Pan fo'r cynhyrchydd yn berchennog brand—

- (a) manylion yr holl enwau, nodau masnach a marciau nodweddiadol eraill sy'n ymddangos ar becynwaith y mae'r perchennog brand yn gyfrifol amdano;
- (b) pa un a yw'r perchennog brand hefyd yn cynhyrchu pecynwaith nad oes unrhyw enw, nod masnach na marc nodweddiadol arall yn ymddangos arno ai peidio.

### RHAN 3

Yr wybodaeth sy'n ofynnol gan berchnogion brand, mewnforywr, dosbarthwyr a darparwyr gwasanaethau

10.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys i gynhyrchwyr—

- (a) sy'n berchnogion brand neu, ar gyfer pecynwaith nad oes perchennog brand iddo, sy'n bacwyr/llanwyr,
- (b) sy'n fewnforywr,
- (c) sy'n ddosbarthwyr, neu
- (d) sy'n ddarparwyr gwasanaethau.

(2) Rhaid i gynhyrchydd bach gadw cofnodion o'r wybodaeth ym mharagraffau 11 a 13(1)(a), (b) a (d) fel sy'n ofynnol gan reoliad 16(2)(a) neu (3)(a).

(3) Rhaid i gynhyrchydd mawr ("CM")—

- (a) cadw cofnodion o'r wybodaeth a nodir ym mharagraffau 11 i 16 ar gyfer y cyfnod casglu data fel sy'n ofynnol gan reoliad 16(2)(b) neu (3)(b), a
- (b) fel sy'n ofynnol gan reoliad 17(1), adrodd ar yr wybodaeth honno mewn perthynas â'r cyfnod adrodd cyntaf a chyfnodau adrodd dilynol.

11. Pwysau mewn cilogramau y pecynwaith ym mhob categori o becynwaith a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

12. Pwysau mewn cilogramau y pecynwaith cartref ym mhob categori o becynwaith a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

7. Each class of producer to which the producer belongs.

8. If they belong to more than one class of producer, which of those classes constitutes their main activity as a producer.

9. Where the producer is a brand owner—

- (a) details of all names, trademarks and other distinctive marks which appear on packaging for which the brand owner is responsible;
- (b) whether the brand owner also produces packaging on which no name, trade mark or other distinctive mark appears.

### PART 3

Information required from brand owners, importers, distributors and service providers

10.—(1) This Part applies to producers who are—

- (a) brand owners or, for packaging for which there is no brand owner, packer/fillers,
- (b) importers,
- (c) distributors, or
- (d) service providers.

(2) A small producer must keep records of the information in paragraphs 11 and 13(1)(a), (b) and (d) as required by regulation 16(2)(a) or (3)(a).

(3) A large producer ("LP") must—

- (a) keep records of the information set out in paragraphs 11 to 16 for the data collection period as required by regulation 16(2)(b) or (3)(b), and
- (b) as required by regulation 17(1), report on that information in relation to the first reporting period and subsequent reporting periods.

11. The weight in kilograms of packaging in each packaging category the producer has supplied during the relevant period.

12. The weight in kilograms of household packaging in each packaging category the producer has supplied during the relevant period.

**13.**—(1) Dadansoddiad o'r pecynwaith a gyflenwyd ym mhob categori o becynwaith yn ystod y cyfnod perthnasol, gan bennu—

- (a) pa un ai pecynwaith cynradd, pecynwaith cludo, pecynwaith eilaidd neu becynwaith trydyddol yw'r pecynwaith (sef y "math o becynwaith");
- (b) pwysau mewn cilogramau y pecynwaith a gyflenwyd ym mhob math o becynwaith;
- (c) pwysau mewn cilogramau y pecynwaith cartref a gyflenwyd sy'n becynwaith cynradd neu'n becynwaith cludo;
- (d) pwysau mewn cilogramau y pecynwaith, a nifer yr unedau o becynwaith, ym mhob categori o becynwaith sydd ar ffurf cynwysyddion diodydd.

(2) Yn is-baragraff (1)(d), ystyr "cynhwysydd diod" yw potel neu gan—

- (a) sy'n cynnwys diod neu a oedd yn cynnwys diod,
- (b) sydd wedi ei gwneud neu wedi ei wneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf o blastig polyethylen tereffthalad (PET), gwydr, dur neu alwminiwm,
- (c) sydd â chynhwysedd o 50 o fililitrau o leiaf ond dim mwy na thri litr o hylif,
- (d) sydd wedi ei chynllunio neu ei gynllunio, neu wedi ei bwriadu neu ei fwriadu, i gael ei selio mewn cyflwr aerglos a dwrglos yn y man cyflenwi i dreuliwr yn y Deyrnas Unedig, ac
- (e) nad yw wedi ei chreu neu ei greu, wedi ei chynllunio neu ei gynllunio nac wedi ei marchnata neu ei farchnata i gael ei hail-lenwi neu ei ail-lenwi nac ei hailddefnyddio neu ei ailddefnyddio mewn unrhyw ffordd arall gan unrhyw berson.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas â phecynwaith wedi ei fewnforio sydd wedi ei daflu gan fewnforiwr.

**14.** Rhaid i gynhyrchwyr sy'n ddosbarthwyr hefyd, ar gyfer pob cynhyrhydd mawr sy'n ddarostyngedig i rwymedigaethau o dan reoliad 15(4)(b) neu (3)(b) y mae'r cynhyrhydd wedi cyflenwi pecynwaith cartref nas llanwyd a phecynwaith nas llanwyd arall iddo yn ystod y cyfnod perthnasol, gadw cofnodion o'r canlynol—

- (a) pwy yw'r cynhyrhydd,
- (b) nifer yr unedau o becynwaith o'r fath a gyflenwyd, ac

**13.**—(1) A breakdown for the packaging supplied in each packaging category during the relevant period, specifying—

- (a) whether the packaging is primary packaging, shipment packaging, secondary packaging, or tertiary packaging (its "packaging type");
- (b) the weight in kilograms of packaging supplied in each packaging type;
- (c) the weight in kilograms of household packaging supplied which is primary packaging or shipment packaging;
- (d) the weight in kilograms of packaging, and the number of units of packaging, in each packaging category which consist of drinks containers.

(2) In sub-paragraph (1)(d), a "drink container" means a bottle or can which—

- (a) contains or used to contain drink,
- (b) is made wholly or mainly from polyethylene terephthalate (PET) plastic, glass, steel or aluminium,
- (c) has a capacity of at least 50 millilitres but no more than three litres of liquid,
- (d) is designed or intended to be sealed in an airtight and watertight state at the point of supply to a consumer in the United Kingdom, and
- (e) is not conceived, designed or marketed to be refilled or re-used in any other way by any person.

(3) Sub-paragraph (1) does not apply in relation to imported packaging which has been discarded by an importer.

**14.** Producers who are distributors must also, for each large producer subject to obligations under regulation 1515(4)(b) or (3)(b) to whom the producer has supplied unfilled household packaging and other unfilled packaging during the relevant period, keep records of—

- (a) the identity of the producer,
- (b) the number of units of such packaging supplied, and

- (c) pwysau pecynwaith nas llanwyd a phecyntwaith cartref nas llanwyd a gyflenwyd i'r cynhyrchydd hwnnw.

**15.**—(1) Pan fo'r cynhyrchydd wedi sefydlu system o becynwaith y gellir ei aildefnyddio, disgrifiad o'r system honno, gan gynnwys yr wybodaeth a ganlyn—

- (a) pwysau mewn cilogramau yr holl becynwaith a gyflenwyd yn ystod y cyfnod perthnasol y gellir ei aildefnyddio neu ei ail-lenwi;
- (b) pwysau mewn cilogramau y pecynwaith y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) sy'n becynwaith cynradd.

(2) Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir o dan is-baragraff (1) gael ei rhoi ar gyfer pob categori o becynwaith a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn y cyfnod perthnasol.

(3) Nid oes ond angen i'r cynhyrchydd gynnwys gwybodaeth ynghylch pecynwaith cartref y gellir ei aildefnyddio yn y flwyddyn y'i cyflenwir gyntaf.

**16.**—(1) Pwysau mewn cilogramau y pecynwaith cartref a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn y cyfnod perthnasol ym mhob categori o becynwaith sy'n cynnwys eitemau a restrir yn is-baragraff (2).

(2) Mae'r eitemau a ganlyn yn berthnasol at ddibenion is-baragraff (1)—

- (a) pecynwaith a roddir i dreulwyr gyda chludfwyd neu ddiodydd, gan gynnwys deunydd lapio, bocsys, cwpanau, dalwyr cwpanau, bagiau, papur a gwellt;
- (b) pecynwaith ar felysion, pan fo'r melysion yn pwyso llai na 230 o gramau, gan gynnwys pecynwaith ar gwm cnoi a deunydd lapio siocled;
- (c) pecynwaith ar sigarêts, sigârs, tybaco ac e-sigarêts;
- (d) pecynnau creision neu becynwaith ar fyrbrydau sawrus eraill, pan fo'r creision neu'r byrbrydau yn pwyso llai na 60 o gramau;
- (e) pecynwaith ar ddogonau bwyd sengl y gellir eu bwyta ar unwaith heb eu paratoi ymhellach, gan gynnwys rholiau selsig, swshi, brechdanau, bisgedi a chacennau unigol;
- (f) cartonau sy'n cynnwys 850 o fililitrau neu lai o ddiod y gellir yfed eu cynnwys ar unwaith heb ei wanedu â dŵr;
- (g) cydau sy'n cynnwys llai na 600 o fililitrau o ddiod, y gellir yfed eu cynnwys ar unwaith heb ei wanedu â dŵr.

- (c) the weight of unfilled packaging and of unfilled household packaging supplied to that producer.

**15.**—(1) Where the producer has instituted a system of reusable packaging, a description of that system, including the following information—

- (a) the weight in kilograms of all packaging supplied during the relevant period that is reusable or refillable;
- (b) the weight in kilograms of the packaging referred to in paragraph (a) which is primary packaging.

(2) The information provided under sub-paragraph (1) must be given for each packaging category supplied by the producer in the relevant period.

(3) The producer need only include information on reusable household packaging in the year in which it is first supplied.

**16.**—(1) The weight in kilograms of household packaging supplied by the producer in the relevant period in each packaging category which consists of items listed in sub-paragraph (2).

(2) The following items are relevant for the purposes of sub-paragraph (1)—

- (a) packaging provided to consumers with take-away food or drink, including wraps, boxes, cups, cup-holders, bags, paper and straws;
- (b) packaging on confectionary, where the confectionary weighs less than 230 grams, including chewing gum packaging, and chocolate wrappers;
- (c) packaging on cigarettes, cigars, tobacco and e-cigarettes;
- (d) crisp packets or packaging on other savoury snacks, where the crisps or snacks weigh less than 60 grams;
- (e) packaging on single portions of food which can be consumed immediately without further preparation, including sausage rolls, sushi, sandwiches, biscuits and individual cakes;
- (f) cartons holding 850 millilitres or less of drink whose contents can be consumed immediately without dilution;
- (g) pouches containing less than 600 millilitres of drink, whose contents can be consumed immediately without dilution.

## RHAN 4

### Gwybodaeth sy'n ofynnol gan weithredwyr marchnadle ar-lein

**17.** Rhaid i gynhyrchwyr sy'n weithredwyr marchnadle ar-lein—

- (a) pan fo'r cynhyrchwyr yn gynhyrchwyr bach, gadw cofnodion o'r wybodaeth a nodir ym mharagraffau 18 a 19, a rhoi disgrifiad i CNC o'r fethodoleg a ddefnyddir ganddynt i goladu'r wybodaeth honno;
- (b) pan fo'r cynhyrchwyr yn gynhyrchwyr mawr, gadw cofnodion o'r wybodaeth a nodir ym mharagraffau 18 a 19 ac adrodd arni, a rhoi disgrifiad i CNC o'r fethodoleg a ddefnyddir ganddynt i goladu'r wybodaeth honno.

**18.** Pwysau mewn cilogramau y pecynwaith ym mhob categori o becynwaith a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

**19.** Pwysau mewn cilogramau y pecynwaith cartref ym mhob categori o becynwaith a gyflenwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol.

## RHAN 5

### Cyflenwi a thaflu pecynwaith fesul gwlad

**20.** Rhaid i gynhyrchwyr sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaethau casglu data yn rheoliad 16 gadw cofnodion o'r wybodaeth a ganlyn—

- (a) i gynhyrchwyr bach sy'n werthwyr, yn weithredwyr marchnadle ar-lein, yn ddosbarthwyr, yn ddarparwyr gwasanaethau neu'n fewnforwyr, yr wybodaeth ym mharagraff 21(1);
- (b) i gynhyrchwyr mawr sy'n berchnogion brand neu'n bacwyr/llanwyr, yr wybodaeth ym mharagraff 22;
- (c) i bob cynhyrchydd mawr arall, yr wybodaeth ym mharagraffau 21 a 22;
- (d) i gynhyrchwyr sy'n drwyddedwyr neu fusnesau gweithredu tafarn, yr wybodaeth ym mharagraffau 21 a 22(3).

**21.**—(1) Pwysau mewn cilogramau—

- (a) yr holl becynwaith a gyflenwir gan y cynhyrchydd, pan fo'r cynhyrchydd yn werthwr, yn weithredwr marchnadle ar-lein, yn ddosbarthwr neu'n ddarparwr gwasanaeth;
- (b) yr holl becynwaith a waredir gan y cynhyrchydd, pan fo'r cynhyrchydd yn fewnforiwr;

## PART 4

### Information required from online marketplace operators

**17.** Producers who are online marketplace operators must—

- (a) where the producers are small producers, keep records of the information set out in paragraphs 18 and 19, and provide a description of the methodology they use to collate that information to NRW;
- (b) where the producers are large producers, keep records of, and report on, the information set out in paragraphs 18 and 19, and provide a description of the methodology they use to collate that information to NRW.

**18.** The weight in kilograms of packaging in each packaging category the producer has supplied during the relevant period.

**19.** The weight in kilograms of household packaging in each packaging category the producer has supplied during the relevant period.

## PART 5

### Supply and discarding of packaging by nation

**20.** Producers who are subject to the data collection obligations in regulation 16 must maintain records of the following information—

- (a) for small producers who are sellers, online marketplace operators, distributors, service provider or importers, the information in paragraph 21(1);
- (b) for large producers who are brand owners or packers/fillers, the information in paragraph 22;
- (c) for all other large producers, the information in paragraphs 21 and 22;
- (d) for producers who are licensors or pub operating businesses, the information in paragraphs 21 and 22(3).

**21.**—(1) The weight in kilograms of—

- (a) all packaging the producer supplies, where the producer is a seller, online marketplace operator, distributor or service provider;
- (b) all packaging the producer discards, where the producer is an importer;

mewn blwyddyn berthnasol ym mhob gwlad yn y Deyrnas Unedig, ym mhob categori o becynwaith.

(2) At ddibenion adroddiadau a gyflwynir mewn perthynas â'r blynyddoedd perthnasol 2024, 2025 a 2026, ond nid mewn perthynas ag unrhyw flynyddoedd diweddarach, caiff cynhyrchwyr—

- (a) sy'n werthwyr sy'n cyflenwi pecynwaith eilaidd neu becynwaith trydyddol amcangyfrif swm y pecynwaith a gyflenwyd i wlad yn y Deyrnas Unedig er mwyn cyfrifo pwysau'r pecynwaith a gyflenwyd i'r wlad honno;
- (b) sy'n fewnforwyr sy'n mewnfurio pecynwaith eilaidd neu becynwaith trydyddol amcangyfrif swm y pecynwaith a daflwyd mewn gwlad yn y Deyrnas Unedig er mwyn cyfrifo pwysau'r pecynwaith a daflwyd yn y wlad honno.

(3) Nid yw is-baragraff (2) yn gymwys i becynwaith a gaiff ei gyflenwi yn uniongyrchol gan y gwerthwr i'r person sy'n ei ddefnyddio.

**22.**—(1) Swm y gwastraff pecynwaith perthnasol a gasglwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol o bersonau heblaw'r cynhyrchydd ac a anfonwyd i'w ailgylchu.

(2) Swm y gwastraff pecynwaith a gasglwyd gan y cynhyrchydd yn ystod y cyfnod perthnasol—

- (a) sy'n wastraff pecynwaith y cynhyrchydd ei hun, a
- (b) sy'n wastraff pecynwaith o bersonau eraill.

(3) Swm y gwastraff y cyfeirir ato yn is-baragraff (2)—

- (a) a gasglwyd o bob gwlad yn y Deyrnas Unedig;
- (b) a anfonwyd i wlad arall yn y Deyrnas Unedig i'w ailgylchu, gan nodi'r wlad o dan sylw.

(4) Rhaid datgan swm y gwastraff a ddatgenir o dan is-baragraffau (1) i (3) yn ôl y pwysau, mewn cilogramau, a rhaid dadansoddi'r swm ymhellach yn ôl y categori o becynwaith.

in a relevant year in each nation in the United Kingdom, in each packaging category.

(2) For the purposes of reports submitted in relation to the relevant years 2024, 2025 and 2026, but not in relation to any later years, producers who are—

- (a) sellers who supply secondary or tertiary packaging may estimate the amount of packaging which had been supplied to a nation of the United Kingdom in order to calculate the weight of packaging supplied to that nation;
- (b) importers who import secondary or tertiary packaging may estimate the amount of packaging discarded in a nation of the United Kingdom in order to calculate the weight of packaging discarded in that nation.

(3) Sub-paragraph (2) does not apply to packaging which is supplied directly by the seller to the person using it.

**22.**—(1) How much relevant packaging waste the producer has collected during the relevant period from persons other than the producer and sent for recycling.

(2) How much packaging waste the producer has collected during the relevant period—

- (a) consisting of the producer's own packaging waste, and
- (b) consisting of packaging waste from other persons.

(3) How much of the waste referred to in sub-paragraph (2) was—

- (a) collected from each nation within the United Kingdom;
- (b) sent for recycling to another nation in the United Kingdom, identifying the nation concerned.

(4) The amount of waste declared under sub-paragraphs (1) to (3) must be declared by weight, in kilograms, and be further broken down by packaging category.

## ATODLEN 2 Rheoliad 15(7)

### Trwyddedwyr a Busnesau Gweithredu Tafarn

#### RHAN 1

##### Cyffredinol

1.—(1) Mae prif sefydliad yn ddarostyngedig i rwymedigaethau casglu data o dan reoliad 16(6) yn y sefyllfaoedd a nodir ym mharagraff 2(1) pan fo'r amodau ym mharagraff 2(2) wedi eu bodloni.

(2) Pan fo rhwymedigaethau o'r fath ar brif sefydliad—

- (a) mae paragraff 6 yn gymwys i bennu rhwymedigaethau trwyddedwr, a
- (b) mae paragraff 8 yn gymwys i bennu rhwymedigaethau busnes gweithredu tafarn.

2.—(1) Y sefyllfaoedd y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 yw—

- (a) y byddai rhwymedigaethau ar y prif sefydliad ac un neu ragor o'i aelodau o dan y Rheoliadau hyn, oni bai am y ffaith nad yw pob un ohonynt yn bodloni un o'r profion ar gyfer y meini prawf trothwy yn rheoliad 11(4) neu'r ddau ohonynt,
- (b) y byddai rhwymedigaethau ar ddau neu ragor o aelodau o'r prif sefydliad o dan y Rheoliadau hyn, oni bai am y ffaith nad ydynt yn bodloni un o'r profion ar gyfer y meini prawf trothwy yn rheoliad 11(4) neu'r ddau ohonynt, neu
- (c) bod rhwymedigaethau ar y prif sefydliad o dan y Rheoliadau hyn ac y byddai rhwymedigaethau ar un neu ragor o'i aelodau o dan y Rheoliadau hyn, oni bai am y ffaith nad yw'n bodloni un o'r profion ar gyfer y meini prawf trothwy yn rheoliad 11(4) neu'r ddau ohonynt.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff 1 yw—

- (a) bod y prif sefydliad yn bodloni'r prawf trothwy sy'n ymwneud â throsiant yn rheoliad 11(3)(a), a
- (b) yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 4, bod y prif sefydliad ac un neu ragor o'i aelodau, neu ei aelodau yn unig, yn un o'r sefyllfaoedd yn is-baragraff (1)(a), (b) neu (c), gyda'i gilydd yn bodloni'r prawf trothwy sy'n ymwneud â pheccynwaith a drinnir yn rheoliad 11(3)(b).

## SCHEDULE 2 Regulation 15(7)

### Licensors and Pub Operating Businesses

#### PART 1

##### General

1.—(1) A head organisation is subject to data collection obligations under regulation 16(6) in the situations set out in paragraph 2(1) where the conditions in paragraph 2(2) are met.

(2) Where a head organisation has such obligations—

- (a) paragraph 6 applies to determine the obligations of a licensor, and
- (b) paragraph 8 applies to determine the obligations of a pub operating business.

2.—(1) The situations referred to in paragraph 1 are that—

- (a) the head organisation and one or more of its members would, but for the fact that they do not all satisfy one or both of the tests for the threshold criteria in regulation 11(4), each have obligations under these Regulations,
- (b) two or more members of the head organisation would, but for not satisfying one or both of the tests for the threshold criteria in regulation 11(4), each have obligations under these Regulations, or
- (c) the head organisation has obligations under these Regulations and one or more of its members would, but for a failure to satisfy one or both of the tests for the threshold criteria in regulation 11(4), each have obligations under these Regulations.

(2) The conditions referred to in paragraph 1 are that—

- (a) the head organisation satisfies the threshold test relating to turnover in regulation 11(3)(a), and
- (b) subject to paragraphs 3 and 4, the head organisation and one or more of its members, or its members alone, in one of the situations in sub-paragraph (1)(a), (b) or (c), together satisfy the threshold test relating to packaging handled in regulation 11(3)(b).



3. Pan na fo gan y prif sefydliad yr wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion Rhannau 2 a 3—

- (a) rhaid i'r sefydliad wneud pob ymdrech i gael yr wybodaeth honno, a
- (b) pan na fo'r wybodaeth honno gan y sefydliad, er gwaethaf gwneud pob ymdrech, rhaid iddo lunio ei amcangyfrif gorau a rhaid defnyddio'r amcangyfrif hwnnw at ddibenion Rhannau 2 a 3.

4. At ddibenion yr Atodlen hon—

- (a) ystyr “prif sefydliad” yw trwyddedwr neu fusnes gweithredu tafarn fel y'u diffinnir yn rheoliad 9, a
- (b) ystyr “aelod” yw—
  - (i) pan fo'r prif sefydliad yn drwyddedwr, trwyddedai, sef y person y rhoddir iddo drwydded i ddefnyddio nod masnach gan y trwyddedwr o dan gyfundeb trwyddedu fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 9, neu
  - (ii) pan fo'r prif sefydliad yn fusnes gweithredu tafarn, tenant, sef y person y rhoddir iddo les neu denantiaeth gan y busnes gweithredu tafarn fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 9.

## RHAN 2

### Trwyddedwyr

5. Pan fo'r prif sefydliad yn drwyddedwr, at ddibenion penderfynu a yw'r amod yn rheoliad 11(3)(b) wedi ei fodloni ai peidio, ni chaniateir ond ystyried y pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a ganlyn—

- (a) pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith sy'n dwyn nod masnach y prif sefydliad y rhoddyd trwydded i ddefnyddio'r nod masnach hwnnw ar ei gyfer neu ar eu cyfer o dan y cyfundeb trwyddedu,
- (b) pecynwaith sy'n gysylltiedig â nwyddau sy'n dwyn nod masnach y prif sefydliad y rhoddyd trwydded i ddefnyddio'r nod masnach hwnnw ar ei gyfer o dan y cyfundeb trwyddedu, ac
- (c) pan fo rhwymedigaeth ar yr aelod—
  - (i) i brynu nwyddau mewn pecynwaith;
  - (ii) i brynu nwyddau a phecynwaith cysylltiedig neu ddeunyddiau pecynwaith i'w defnyddio i gynnwys neu i ddiogelu'r nwyddau hynny neu i hwyluso'r gwaith o drin y nwyddau hynny neu i gyflwyno'r nwyddau hynny;

3. Where the head organisation does not have the information necessary for the purposes of Parts 2 and 3 the organisation—

- (a) must use its best endeavours to obtain such information, and
- (b) where despite having used its best endeavours it nevertheless does not have such information it must produce its best estimate and that estimate must be used for the purposes of Parts 2 and 3.

4. For the purposes of this Schedule—

- (a) “head organisation” means a licensor or pub operating business as defined in regulation 9, and
- (b) “member” means—
  - (i) where the head organisation is a licensor, a licensee being the person granted a licence to use a trade mark by the licensor under a licence agreement as provided for in regulation 9, or
  - (ii) where the head organisation is a pub operating business, a tenant being the person granted a lease or tenancy by the pub operating business as provided for in regulation 9.

## PART 2

### Licensors

5. Where the head organisation is a licensor, for the purposes of determining whether the condition in regulation 11(3)(b) is met, only the following packaging or packaging materials are to be taken into account—

- (a) packaging or packaging materials that bear a trade mark of the head organisation for which a licence to use such trade mark has been granted under the licence agreement,
- (b) packaging associated with goods that bear a trade mark of the head organisation for which a licence to use such trade mark has been granted under the licence agreement, and
- (c) where the member is obliged to—
  - (i) purchase goods in packaging;
  - (ii) purchase goods and associated packaging or packaging materials to be used to contain or protect such goods or to facilitate the handling of or for the presentation of such goods;

- (iii) i brynu pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith i'w ddefnyddio neu i'w defnyddio i gynnwys neu i ddiogelu'r nwyddau hynny neu i hwyluso'r gwaith o drin y nwyddau hynny neu i gyflwyno'r nwyddau hynny;

o'r prif sefydliad neu, pan fo'r prif sefydliad wedi negodi rhai o'r telerau cyflenwi, neu bob un ohonynt, gyflenwr a enwir neu a awdurdodir gan y prif sefydliad o dan y cytundeb trwyddedu, y pecynwaith hwnnw neu'r deunyddiau pecynwaith hynny.

**6. Pan fo'r prif sefydliad yn drwyddedwr—**

- (a) pan fo sefyllfa sy'n dod o fewn paragraff 2(1)(a) neu (b) a bo'r amodau ym mharagraff 2(2) wedi eu bodloni—
  - (i) bernir bod y prif sefydliad yn gynhyrhydd sy'n perthyn i ddsbarth neu ddsbarthau a bennir yn rheoliad 8, a
  - (ii) mae rhwymedigaethau casglu data ar y prif sefydliad mewn cysylltiad â'i weithgareddau ei hun, pan fo'n gymwys, a gweithgareddau ei aelodau mewn cysylltiad â'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a nodir ym mharagraff 5;
- (b) pan fo sefyllfa sy'n dod o fewn baragraff 2(1)(c) a bo'r amodau ym mharagraff 2(2) wedi eu bodloni—
  - (i) mae rhwymedigaethau ar y prif sefydliad fel cynhyrhydd mewn cysylltiad â'i weithgareddau ei hun,
  - (ii) bernir bod y prif sefydliad yn gynhyrhydd un neu ragor o'r dosbarthau a bennir yn rheoliad 8, a
  - (iii) mae rhwymedigaethau casglu data ar y prif sefydliad mewn cysylltiad â gweithgareddau ei aelodau mewn cysylltiad â'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a nodir ym mharagraff 5.

- (iii) purchase packaging or packaging materials to be used to contain or protect such goods or to facilitate the handling of or for the presentation of such goods;

from the head organisation or, where the head organisation has negotiated some or all of the terms of the supply, a supplier nominated or authorised by the head organisation under the licence agreement, such packaging or packaging materials.

**6. Where the head organisation is a licensor—**

- (a) where there is a situation falling in paragraph 2(1)(a) or (b) and the conditions in paragraph 2(2) have been met, the head organisation—
  - (i) is deemed to be a producer of a class or classes specified in regulation 8, and
  - (ii) has data collection obligations in respect of its own activities, where applicable, and those of its members in respect of the packaging or packaging materials set out in paragraph 5;
- (b) where there is a situation falling in paragraph 2(1)(c) and the conditions in paragraph 2(2) have been met, the head organisation—
  - (i) has obligations as a producer in respect of its own activities,
  - (ii) is deemed to be a producer of one or more classes specified in in regulation 8, and
  - (iii) has data collection obligations in respect of the activities of its members in respect of the packaging or packaging materials set out in paragraph 5.

## RHAN 3

### Busnesau gweithredu tafarn

7.—(1) Pan fo'r prif sefydliad yn fusnes gweithredu tafarn, at ddibenion penderfynu a yw'r amod yn rheoliad 11(4)(b) wedi ei fodloni ai peidio, ni chaniateir ond ystyried y pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a bennir yn is-baragraff (2).

(2) Y pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith y cyfeirir atynt yn is-baragraff (1) yw pecynwaith neu ddeunyddiau pecynwaith sy'n cynnwys y nwyddau sy'n ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth i brynu o'r prif sefydliad neu o berson a enwebir neu a awdurdodir gan y prif sefydliad hwnnw o dan y cytundeb gweithredu tafarn, pa un a yw'r nwyddau wedi eu pacio neu wedi eu llenwi yn y pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith ai peidio pan gânt eu prynu gan yr aelod.

8. Pan fo'r prif sefydliad yn fusnes gweithredu tafarn—

- (a) pan fo sefyllfa sy'n dod o fewn paragraff 2(1)(a) neu (b) a bo'r amodau ym mharagraff 2(2) wedi eu bodloni—
  - (i) bernir bod y prif sefydliad yn gynhyrhydd sy'n perthyn i un neu ragor o'r dosbarthau a bennir yn rheoliad 8, a
  - (ii) mae rhwymedigaethau casglu data ar y prif sefydliad mewn cysylltiad â'i weithgareddau ei hun, pan fo'n gymwys, a gweithgareddau ei aelodau mewn cysylltiad â'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a nodir ym mharagraff 7(2), neu
- (b) pan fo sefyllfa sy'n dod o fewn paragraff 2(1)(c) a bo'r amodau ym mharagraff 2(2) wedi eu bodloni—
  - (i) mae rhwymedigaethau ar y prif sefydliad fel cynhyrhydd mewn cysylltiad â'i weithgareddau ei hun,
  - (ii) bernir bod y prif sefydliad yn gynhyrhydd sy'n perthyn i un neu ragor o'r dosbarthau a bennir yn rheoliad 8, a
  - (iii) mae rhwymedigaethau casglu data ar y prif sefydliad mewn cysylltiad â gweithgareddau ei aelodau mewn cysylltiad â'r pecynwaith neu'r deunyddiau pecynwaith a nodir ym mharagraff 7(2).

## PART 3

### Pub operating businesses

7.—(1) Where the head organisation is a pub operating business, for the purposes of determining whether the condition in regulation 11(4)(b) is met, only packaging or packaging materials specified in sub-paragraph (2) are to be taken into account.

(2) The packaging or packaging materials referred to in sub-paragraph (1) are packaging or packaging materials that contain the goods that are the subject of the obligation to purchase from the head organisation or person nominated or authorised by that head organisation under the pub operating agreement, whether or not the goods have been packed or filled in the packaging or packaging materials when they are purchased by the member.

8. Where the head organisation is a pub operating business—

- (a) where there is a situation falling in paragraph 2(1)(a) or (b) and the conditions in paragraph 2(2) have been met, the head organisation—
  - (i) is deemed to be a producer of one or more classes specified in regulation 8, and
  - (ii) has data collection obligations in respect of its own activities, where applicable, and those of its members in respect of the packaging or packaging materials set out in paragraph 7(2), or
- (b) where there is a situation falling in paragraph 2(1)(c) and the conditions in paragraph 2(2) have been met, the head organisation—
  - (i) has obligations as a producer in respect of its own activities,
  - (ii) is deemed to be a producer of one or more classes specified in regulation 8, and
  - (iii) has data collection obligations in respect of the activities of its members in respect of the packaging or packaging materials set out in paragraph 7(2).











a Williams Lea company

Cyhoeddwyd gan TSO (Y Llyfrfa), cwmni Williams Lea,  
ac ar gael o:

**Arlein**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Post, Ffôn, Ffacs ac E-bost**

TSO

Blwch Post 29, Norwich, NR3 1GN

Archebionf ffôn/ Ymholiadau cyffredinol 0333 202 5070

Archebion ffacs: 0333 202 5080

E-bost: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Ffôn Testun: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

Published by TSO (The Stationery Office), a Williams Lea company,  
and available from:

**Online**

**[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**

TSO

PO Box 29, Norwich, NR3 1GN

Telephone orders/General enquiries: 0333 202 5070

Fax orders: 0333 202 5080

E-mail: [customer.services@tso.co.uk](mailto:customer.services@tso.co.uk)

Textphone: 0333 202 5077

**TSO@Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-39459-7



9 780348 394597